42. Mae dyletswydd cyfrinachedd statudol ar CThEM sy'n pennu'r amgylchiadau lle y gellir datgelu'r wybodaeth y mae'n ei dal yn gyfreithlon. Dim ond mewn nifer bach o amgylchiadau penodol y ceir datgelu gwybodaeth. O ganlyniad i ddatganoli rhai meysydd treth i'r Cynulliad mae angen diwygiadau i DCCTh 2005 i alluogi CThEM i ddatgelu gwybodaeth berthnasol ynghylch trethi datganoledig.
43. Mae *is-adrannau (2) a (3)* yn diwygio adran 15 o DCCTh 2005 i sicrhau bod pŵer gan CThEM i weinyddu trethi datganoledig ar ran Gweinidogion Cymru, os bydd y ddau barti'n cytuno ar hynny.
44. Mae *is-adrannau (4) a (5)* yn diwygio dyletswydd cyfrinachedd statudol CThEM yn adran 18 o DCCTh fel y caiff CThEM ddatgelu gwybodaeth berthnasol i Weinidogion Cymru yng nghyswllt trethi datganoledig.
45. Mae *is-adran (6)* yn cymhwys o'r gosb droseddol bresennol am ddatgelu pellach ar wybodaeth gyfrinachol (gan wahardd datgelu pellach ar wybodaeth o'r fath heb gydsyniad y Comisiynwyr) at wybodaeth a ddatgelir i Weinidogion Cymru.
46. Mae *is-adrannau (7) ac (8)* yn darparu na roddir swyddogaethau na materion wedi'u neilltuo ("*assigned matters*") sy'n ymwneud â'r trethi datganoledig i Gomisiynwyr a swyddogion CThEM. Mae hyn yn sicrhau bod y Cynulliad yn llwyr gyfrifol am drethi datganoledig.

Cymal 8: Cyfradd dreth incwm Gymreig

47. Mae cymal 8 yn ymwneud â chyfradd dreth incwm Gymreig. Mae *is-adran (1)* yn mewnosod Pennod 2 yn y Rhan 4A newydd yn DLIC 2006, sy'n cynnwys adrannau 116C i 116I. Mae *is-adran (2)* yn darparu y bydd yr adrannau sydd wedi'u mewnosod gan *is-adran (1)* yn dod i rym yn unol ag adran 12. Mae'r adran honno'n darparu, os bydd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid gweithredu'r darpariaethau ar dreth incwm, y caiff Trysorlys EM bennu blwyddyn dreth yn flwyddyn dreth gyntaf pryd y bydd cynnig a basiwyd ynghylch cyfradd Gymreig o dan y darpariaethau newydd yn dod i rym.
48. Mae adran 116C newydd yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i osod cyfradd dreth incwm Gymreig, drwy basio cynnig, ar gyfer trethdalwyr Cymreig.
49. Mae adran 116C(2) yn rhoi gwybod i'r darllenyydd y bydd y gyfradd yn cael ei chyfrifo o dan adran 6(2B) o Ddeddf Treth Incwm 2007 ("DTI 2007"). Mae adran 6(2B) yn cael ei diwygio gan gymal 9 o'r Mesur hwn.
50. Mae adrannau 116C(3) i (6) yn darparu y bydd cynnig a basiwyd am gyfradd Gymreig yn gymwys ar gyfer un flwyddyn dreth yn unig a bod rhaid iddi fod yn gyfradd sengl (hanner neu rif cyfan) a fydd yn gymwys drwy gydol y flwyddyn honno. Rhaid i'r cynnig a basiwyd bennu'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi a rhaid pasio'r cynnig cyn dechrau'r flwyddyn dreth honno (ond dim mwy na 12 mis cyn dechrau'r flwyddyn honno).
51. Mae adran 116C(7) yn darparu, os bydd cynnig a basiwyd ar gyfradd Gymreig yn cael ei ddileu cyn dechrau'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi, y bydd y Deddfau Treth Incwm yn gweithredu ar gyfer y flwyddyn honno fel pe bai'r cynnig heb gael ei basio erioed. (Mae hyn yn neilltuol o berthnasol i'r ffordd o gyfrifo cyfraddau treth yn adran 6(2B) o DTI 2007.) Mae Deddf Ddehongli 1978 yn diffinio Deddfau Treth Incwm ("*Income Tax Acts*") i olygu'r holl ddeddfiadau sy'n ymwneud â threth incwm. Os bydd cynnig a basiwyd yn cael ei ddileu, gellir pasio cynnig arall ar gyfradd Gymreig yn ei le ar yr amod bod y cynnig hwnnw'n cael ei basio yn ei le cyn dechrau'r flwyddyn dreth y bydd yn gymwys iddi.
52. Mae adran 116C(8) yn ei gwneud yn ofynnol bod rheolau sefydlog y Cynulliad yn sicrhau mai'r Prif Weinidog neu un o Weinidogion Cymru fydd yr unig rai a gaiff wneud cynnig ar gyfer cyfradd Gymreig.
53. Mae adran 116D yn diffinio trethdalwr Cymreig ("*Welsh taxpayer*") i ddibenion Rhan 4A o DLIC 2006. Ar sail y diffiniad sydd wedi'i ddarparu yma ar hyn o bryd ac yn adran 80D o Ddeddf yr Alban 1998, byddai'n bosibl i unigolyn gael ei ystyried yn drethdalwr Cymreig ac yn drethdalwr Albanaidd yn yr un flwyddyn. Cyn cyflwyno'r Mesur, bydd y Llywodraeth yn ystyried pa fath o ddarpariaeth i'w gyflwyno i 'dorri'r ddadl' mewn amgylchiadau o'r math hwn. Mae mân wahaniaethau o ran drafftio rhwng y darpariaethau yn adrannau 116D i 116F a'r darpariaethau cyfatebol yn

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafft
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

adrannau 80D i 80F o Ddeddf yr Alban 1998. Mae'r rhain yn cyfeirio'r darllenyydd at y prawf preswylio statudol a gyflwynwyd yn Neddf Cyllid 2013 ac yn gwneud mân welliannau eraill o ran drafftio ond yr un yw'r effaith.

54. Mae adran 116D(1) yn datgan mai unigolyn yw trethdalwr Cymreig (ac nid cwmni neu ymddiriedolaeth, er enghraifft) sy'n preswylio yn y DU i ddibenion treth incwm ac yn bodloni o leiaf un o'r tri amod sydd wedi'u nodi yn yr adran. Mae cyfeiriad yn y ddeddfwriaeth at Atodlen 45 i Ddeddf Cyllid 2013 a gyflwynodd brawf preswylio statudol newydd i benderfynu a yw unigolion yn preswylio yn y DU i ddibenion treth.
55. Mae adran 116D(2) yn disgrifio amod A, ac yn darparu y bydd unigolyn yn bodloni amod A os oes ganddo gysylltiad agos â Chymru.
56. Mae adran 116D(3) yn disgrifio amod B, ac yn darparu y bydd unigolyn yn bodloni amod B os nad oes ganddo gysylltiad agos â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac os yw'n treulio mwy o ddiwrnodau yn y flwyddyn honno yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.
57. Mae adran 116D(4) yn disgrifio amod C. Bydd unigolyn yn bodloni amod C os yw'r unigolyn hwnnw, am y cyfan neu ran o flwyddyn, yn Aelod Seneddol dros etholaeth yng Nghymru, yn aelod o Senedd Ewrop dros Gymru neu'n AC.
58. Mae'r adran 116E newydd yn diffinio beth y mae cysylltiad agos â Chymru neu unrhyw ran arall o'r DU (hynny yw, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon) yn ei olygu i ddibenion adrannau 116D(2) a 116D(3)(a).
59. Mae adran 116E(2) yn gymwys lle nad oes ond un man preswylio gan unigolyn yn y DU lle y mae'n byw am ran o'r flwyddyn o leiaf. Mae'n darparu y bydd cysylltiad agos gan unigolyn o'r fath â'r rhan o'r DU lle y mae'r man preswylio hwnnw. Os yw'r lle hwnnw yng Nghymru, bydd yr unigolyn yn drethdalwr Cymreig. Os yw'r lle hwnnw mewn rhan arall o'r DU, ni fydd yr unigolyn yn drethdalwr Cymreig (oni bai ei fod yn bodloni amod C sydd wedi'i ddisgrifio uchod).
60. Mae adran 116E(3) yn gymwys lle y mae gan unigolyn ddu neu ragor o fannau preswylio yn y DU. Mae'n darparu y bydd gan unigolyn o'r fath gysylltiad agos â'r rhan o'r DU lle y mae ei brif fan preswylio, ar yr amod ei fod yn byw yn y man preswylio hwnnw am o leiaf ran o'r flwyddyn a bod y cyfnodau y mae ei brif fan preswylio yn y lle hwnnw yn cynnwys, gyda'i gilydd, o leiaf cymaint o'r flwyddyn â'r cyfnodau pan yw ei brif fan preswylio mewn unrhyw ran arall o'r DU. Bydd yr unigolyn yn drethdalwr Cymreig os yw'r cyfnodau y mae ei brif fan preswylio yng Nghymru yn cynnwys gyda'i gilydd o leiaf cymaint o'r flwyddyn â'r cyfnodau pan yw ei brif fan preswylio mewn unrhyw ran arall o'r DU.
61. Mae adran 116E(4) yn darparu, er mwyn cymhwys o'r diffiniad o drethdalwr Cymreig, fod man preswylio ("place") yn cynnwys llong neu ddull cludo o fath arall.

62. Mae adran 116F yn darparu'r ffordd o benderfynu nifer y diwrnodau y mae unigolyn yn eu treulio yng Nghymru neu mewn rhan arall o'r DU. Yr unig rai y byddai hyn yn gymwys iddynt yw unigolion y mae eu statws yn drethdalwyr Cymreig heb gael ei benderfynu eisoes drwy fodloni amodau A neu C.
63. Mae adran 116F(1) yn darparu bod unigolyn yn treulio mwy o ddiwrnodau yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU os (a dim ond os) yw nifer y diwrnodau y mae yng Nghymru yn gyfartal neu'n fwy na nifer y diwrnodau yn y flwyddyn y mae mewn unrhyw ran arall o'r DU. Penderfynir ble y mae unigolyn ar ddiwrnod penodol yn ôl lle y mae ar ddiweddu y diwrnod.
64. Mae adran 116F(2) yn darparu eithriad i'r rheol yn adran 116F(1) lle y mae unigolyn yn cyrraedd y DU yn deithiwr ac, y diwrnod nesaf, yn ymadael â'r DU heb gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd heb gysylltiad agos â'i daith drwy'r DU. Nid oes angen cyfrif y diwrnodau y bodlonir yr eithriad hwn er mwyn penderfynu a yw unigolyn yn bodloni amod B.
65. Mae adran 116G yn darparu pwerau atodol i addasu deddfiadau.
66. Mae adran 116G(1) yn darparu bod gorchymyn gan Drysorlys EM yn gallu eithrio effaith y pŵer sydd gan y Cynulliad i amrywio trethi mewn cysylltiad ag unrhyw ddeddfiad, neu ddarparu bod ei effaith i'w addasu mewn cysylltiad ag unrhyw ddeddfiad. Mae nifer o ostyngiadau mewn treth yn cael eu cyfrifo drwy gyfeirio at incwm crynswth cyn didynnu treth incwm. Mae cyflwyno cyfradd Gymreig yn codi nifer o gwestiynau ynghylch pa gyfradd i'w defnyddio wrth gyfrifo gostyngiadau ac wrth gyfrifo incwm y didynnir treth ohono yn y ffynhonnell. Mae'r Llywodraeth yn dymuno trafod y mater hwn â rhanddeiliaid perthnasol cyn penderfynu'n derfynol ar y ffordd o drin gostyngiadau o'r fath a delio â materion o'r fath, lle y bo'n briodol, drwy wneud is-ddeddfwriaeth ar ôl cynnal y trafodaethau hynny. Rhagwelir y bydd y dull o drafod y meysydd hyn yn gyson â'r cynigion ar gyfer yr Alban sydd wedi'u nodi yn Nodyn Technegol CThEM¹ a gyhoeddwyd ym Mai 2012.
67. Mae adran 116G(2) yn rhoi pŵer i Drysorlys EM i wneud gorchymyn i addasu unrhyw ddeddfiad yn ôl yr hyn sy'n angenrheidiol neu'n hwylus yn ei farn ef o ganlyniad i neu mewn cysylltiad â'r ffaith bod pŵer gan y Cynulliad i osod cyfradd Gymreig (o dan adran 116C), pasio unrhyw gynnig, neu arfer y pŵer i wneud gorchymynion yn is-adran (1). Fel y nodwyd uchod, byddai angen nifer o ddiwygiadau canlyniadol technegol manwl i ddeddfwriaeth treth o ganlyniad i gyflwyno'r gyfradd Gymreig newydd. Ni fyddai'n briodol cynnwys manylion o'r fath mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn enwedig o ystyried mai dim ond ar ôl cael pleidlais o blaid gweithredu'r darpariaethau ar dreth incwm gan fwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm y byddai'r pŵer i osod cyfradd Gymreig yn cael ei roi i'r Cynulliad.

¹ <http://www.hmrc.gov.uk/news/technote-scot-taxrate.pdf>

68. Mae adran 116G(3) yn darparu, yn benodol, fod gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan is-adran (2) yn gallu gohirio dros dro yr effaith o gynnig a basiwyd sy'n ymwneud â gweithredu'r system Talu Wrth Ennill (TWE). Rhan hanfodol o'r system TWE yw'r defnydd o dablau treth gan gyflogwyr i gyfrifo pa faint i'w ddidynnu o gyflogau eu gweithwyr. Pe byddai'r Cynulliad, am ba reswm bynnag, yn peidio â phasio cynnig tan ychydig cyn dechrau'r flwyddyn dreth, neu'n pasio cynnig yn lle un arall ychydig cyn dechrau'r flwyddyn dreth, gallai hymny achosi anawsterau ymarferol i CThEM, darparwyr cyflogres ac eraill wrth wneud y newidiadau angenrheidiol i weithredu'r system TWE yn briodol cyn dechrau'r flwyddyn dreth. Gallai problemau tebyg godi pe na byddai Llywodraeth y DU yn gwneud penderfyniad ynghyllch y prif gyfraddau treth incwm, neu unrhyw lwfansau perthnasol, tan ychydig cyn dechrau'r flwyddyn dreth. Lle y mae problem o'r fath yn codi yng nghyswllt y prif gyfraddau treth incwm, fe geir darpariaeth gan amlaf yn y Ddeddf Cyllid berthnasol i ddelio â'r effaith ar y system TWE (gweler, er enghraifft, adrannau 2(3) a 4(3) o Ddeddf Cyllid 2008). Byddai'r pŵer sydd wedi'i ddarparu gan adran 116G(3) yn caniatáu i ddarpariaeth debyg gael ei gwneud mewn cysylltiad â'r gyfradd Gymreig.
69. Mae adran 116G(4) yn darparu bod gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan adran 116G yn gallu bod yn ôl-weithredol a dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn asesu pan gafodd ei wneud. Nid yw'n anarferol i Gydsyniad Brenhinol gael ei roi i Ddeddf Cyllid ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth y mae'n gymwys iddi ac i ddarpariaethau sydd wedi'u gwneud o dan Ddeddf o'r fath fod yn ôl-weithredol a dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn dreth honno. Byddai'r pŵer hwn yn caniatáu i Drysorlys EM wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol angenrheidiol o ganlyniad i ddarpariaeth o'r fath.
70. Mae is-adrannau 116G(5) i (6) yn darparu y bydd gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan yr adran hon yn cael ei drafod drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn Nhŷ'r Cyffredin, oni bai ei fod yn ymwneud yn llwyr â materion sydd wedi'u disgrifio yn *is-adran* (3); os felly, byddai'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn cael ei defnyddio.
71. Mae adran 116H newydd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ad-dalu i unrhyw un o Weinidogion y Goron neu i unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth am dreuliau gweinyddol sydd wedi'u hysgwyddo oherwydd y Bennod 2 newydd ar unrhyw adeg ar ôl rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys ad-dalu i CThEM am y costau ychwanegol y mae wedi'u hysgwyddo wrth weithredu a gweinyddu'r gyfradd Gymreig newydd.
72. Mae adran 116I(1) newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ("RhAC") yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar gyfer pob blwyddyn ariannol (hy, pob blwyddyn hyd 31 Mawrth) am weinyddu'r gyfradd dreth incwm Gymreig gan CThEM.
73. Mae adran 116I(2) yn pennu cwmpas yr adroddiad. Bydd y RhAC yn adrodd ar ddigonolrwydd y rheolau (sydd i fod i gynnwys yr un materion â "regulations" yn adran 2(1) o Ddeddf Adran y Trysorlys a'r Adran Archwilio 1921) a'r gweithdrefnau

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafst
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013

y mae CThEM wedi'u rhoi ar waith i weinyddu a chasglu'r gyfradd Gymreig. Bydd y RhAC hefyd yn adrodd ar gyfrifiad CThEM o'r swm o dreth incwm y gyfradd Gymreig sydd i'w drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, ac ar gywirdeb a thegwch y costau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u had-dalu i CThEM am weinyddu'r gyfradd Gymreig.

74. Mae adran 116I(3) yn egluro mai darpariaethau'r gyfradd Gymreig ("Welsh rate provisions") yw'r rheini sydd wedi'u nodi yn y Bennod hon ac mewn diwygiadau eraill sydd wedi'u gwneud i gymal 9.
75. Mae adran 116I(4) yn darparu bod y RhAC yn cael arfer disgrifiwn i gynnwys dadansoddiad yn yr adroddiad ynghylch a yw CThEM yn defnyddio ei adnoddau'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus wrth weinyddu'r gyfradd Gymreig.
76. Mae adran 116I(6) yn ei gwneud yn ofynnol bod CThEM yn darparu i'r RhAC y wybodaeth y mae arno ei hangen i gwblhau'r adroddiad blynnyddol.
77. Mae adran 116I(7) yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adroddiad yn cael ei osod gerbron y Cynulliad ddim hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn yr un y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

Cymal 9: Treth incwm ar gyfer trethdalwyr Cymreig

78. Mae cymal 9 yn diwygio DTI 2007 a Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 mewn cysylltiad â threth incwm ar gyfer trethdalwyr Cymreig.
79. Mae *is-adran (3)* yn diwygio adran 6(2A) o DTI 2007 (a oedd wedi'i mewnosod cyn hyn gan Ddeddf yr Alban 2012) i gynnwys trethdalwyr Cymreig. Mae adran 6(2) o DTI 2007 yn darparu mai'r gyfradd sylfaenol, y gyfradd uwch a'r gyfradd ychwanegol ar gyfer blwyddyn dreth (h.y. blwyddyn y codir treth incwm amdani) yw'r cyfraddau sydd wedi'u penderfynu felly gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn honno. Mae adran 6(2A), fel y mae wedi'i diwygio, yn darparu na fydd adran 6(2) yn gymwys i incwm trethdalwr Cymreig nad yw'n deillio o gynillion.
80. Mae *is-adrannau (4) a (5)* yn diwygio adran 6(2B) (a oedd wedi'i mewnosod cyn hyn gan Ddeddf yr Alban 2012) i gynnwys y gyfradd Gymreig sydd wedi'i gosod gan y Cynulliad yn y cyfrifiad i benderfynu'r cyfraddau treth a delir gan drethdalwyr Cymreig ar incwm nad yw'n deillio o gynillion. Mae hyn yn gweithio drwy ostwng y cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol sydd wedi'u penderfynu o dan adran 6(2) o 10 y cant, ac wedyn ychwanegu'r gyfradd Gymreig sydd wedi'i gosod o dan adran 116C. Felly byddai cyfradd Gymreig o 10 y cant yn golygu bod y cyfraddau a delir gan drethdalwyr Cymreig yr un fath â'r rheini a delir mewn mannau eraill yn y DU, byddai cyfradd o 9 y cant yn golygu bod y cyfraddau ychydig yn is a byddai cyfradd o 11 y cant yn golygu eu bod ychydig yn uwch.

81. Mae *is-adran (6)* yn mewnosod cyfeiriad yn DTI 2007 at y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 4A o DLIC 2006 (sydd wedi'u mewnosod gan gymal 8 o'r Ddeddf hon) ynghylch ystyr trethdalwr Cymreig ("Welsh taxpayer") a gosod y gyfradd Gymreig.
82. Mae *is-adrannau (7) ac (8)* yn diwygio adrannau 10 ac 16 o DTI 2007. Mae adran 10 o DTI 2007 yn egluro pa faint o incwm yr unigolyn sy'n agored i'w drethu ar y cyfraddau sylfaenol, uwch ac ychwanegol. Mae adran 10 yn ddarostyngedig i adran 13 o'r Ddeddf honno, sy'n ymwneud ag incwm difidend (sydd wedi'i ddiffinio yn adran 19). Codir treth ar incwm difidend ar y cyfraddau cyffredin difidend, uwch difidend ac ychwanegol difidend yn hytrach na'r prif gyfraddau treth incwm. Parheir i godi treth ar incwm difidend trethdalwr Cymreig ar y cyfraddau hyn. Mae'r adrannau sydd wedi'u diwygio'n cymhwysôr cyfraddau sydd wedi'u pennu o dan adran 6(2) at incwm y trethdalwr Cymreig sy'n deillio o gynillion a'r cyfraddau sydd wedi'u pennu o dan adran 6(2B) at incwm y trethdalwr Cymreig nad yw'n deillio o gynillion.
83. Mae *is-adran (9)* yn diwygio adran 809H o DTI 2007. Mae Pennod A1 o Ran 14 o DTI 2007 yn darparu ar gyfer codi treth ar sail wahanol ar gyfer unigolion nad ydynt â'u domisil yn y DU. Os yw unigolyn o'r fath yn breswylydd yn y DU at ddibenion treth incwm, caiff wneud hawliad am gymhwysôr sail trethu taliadau. Wrth gymhwysôr sail trethu taliadau, dim ond wrth ddod ag incwm ac enillion i'r DU y codir treth incwm y DU a threth ar enillion cyfalaf y DU arnynt. Fodd bynnag, os yw unigolyn wedi preswylio yn y DU am o leiaf saith o'r naw blwyddyn dreth flaenorol, ac yn dymuno cael ei drethu ar y sail trethu taliadau, o dan adran 809H(2) o DTI 2007 bydd yn rhaid iddo dalu treth incwm a threth ar enillion cyfalaf o £30,000 o leiaf. Os yw unigolyn wedi bod yn preswylio yn y DU am o leiaf 12 o'r 14 blynedd blaenorol, bydd yn rhaid iddo dalu £50,000 o leiaf. Er mwyn cyfrifo treth incwm a godir o dan adran 809H(2), mae *is-adran (9)* o'r cymal hwn yn datgymhwysu adrannau 6(2A) i (2D) o DTI 2007.
84. Mae *is-adran (10)* yn diwygio Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968. Mae'r Ddeddf honno'n ymwneud â chynigion a basiwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ynghylch cyfraddau gwahanol drethi, gan gynnwys treth incwm, ac yn eu rhoi mewn grym dros dro. Mae hyn yn caniatáu i CThEM gasglu'r dreth nes rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Mesur Cyllid sy'n cynnwys y darpariaethau treth perthnasol a'i wneud yn gyfraith, neu nes bydd y cynigion a basiwyd yn peidio â bod mewn grym. Felly mae *is-adran (10)* yn diwygio Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 er mwyn cynnwys cyfeiriad at y cyfraddau sydd wedi'u cyfrifo ar gyfer trethdalwr Cymreig drwy gyfeirio at yr adrannau 6(2A) i (2D) diwygiedig o DTI 2007. Byddai hyn yn sicrhau bod CThEM yn gallu parhau i gasglu treth a godir ar y gyfradd dreth incwm Gymreig.
85. Mae *is-adran (11)* yn darparu y bydd y diwygiadau sydd wedi'u gwneud gan yr adran hon yn dod i rym yn unol ag adran 12.

Cymal 10: Refferendwm yngylch cychwyn darpariaethau ar gyfer treth incwm

86. Mae cymalau 10 ac 11 yn caniatáu i refferendwm gael ei gynnal yng Nghymru yngylch a fydd y darpariaethau ar gyfer treth incwm, sydd wedi'u disgrifio yng nghymalau 8 a 9, yn dod i rym. Mae cymal 10 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn peri cynnal refferendwm yn cael ei gymeradwyo gan ddu Dŷ'r Senedd a thrwy basio cynnig yn y Cynulliad gan fwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf o ACau (h.y. o leiaf 40 o ACau yn pleidleisio o blaid). Os bydd y Cynulliad yn pasio cynnig yn galw am gynnal refferendwm (hefyd o fwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf), mae cymal 11 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gorchymyn drafft yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei osod, neu bydd yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol egluro'r methiant i wneud hynny. Byddai'r darpariaethau ar dreth incwm yn cael eu rhoi mewn grym drwy orchymyn gan Drysorlys EM, wedi'i wneud o dan gymal 12, os oedd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm wedi pleidleisio o blaid hynny.
87. Mae'r weithdrefn sydd wedi'i nodi yn y cymalau hyn yn debyg i'r un yn adrannau 103 a 104 o DLIC 2006, a oedd yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm yngylch gweithredu'r darpariaethau ar Ddeddfau'r Cynulliad² yn y Ddeddf honno. Mae'r cymalau'n gweithredu argymhelliaid sydd wedi'i wneud gan Comisiwn Silk yn ei adroddiad cyntaf³ y dylai datganoli treth incwm fod yn ddarostyngedig i refferendwm yng Nghymru. Roedd Comisiwn Silk yn argymhelliaid hefyd fod darpariaeth ar gyfer refferendwm o'r fath yn cael ei chynnwys mewn Deddf sy'n cyflwyno pwerau trethu a benthyca i Gymru, ac yn awgrymu hefyd fod y weithdrefn a ddaeth â'r darpariaethau ar Ddeddfau'r Cynulliad i rym yn fodel priodol⁴.
88. Mae *is-adran (1)* o gymal 10 yn caniatáu i'w Mawrhydi beri cynnal refferendwm yng Nghymru drwy wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yngylch a fydd y darpariaethau ar dreth incwm yn dod i rym. Os bydd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid, mae *is-adran (2)* yn darparu y bydd y darpariaethau'n dod i rym yn unol â chymal 12 (gweler isod).
89. Mae *is-adran (3)* yn egluro na fyddai pleidlais gan fwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn erbyn gweithredu'r darpariaethau ar dreth incwm yn rhwystr rhag gwneud Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor ar ôl hynny o dan *is-adran (1)*.

² Roedd y darpariaethau ar Ddeddfau'r Cynulliad yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i basio Deddfau'r Cynulliad yn yr 20 o feisydd sydd wedi'u datganoli i Gymru os oedd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn cymeradwyo'r cynnig i weithredu'r darpariaethau. Cynhalwyd refferendwm ar 3 Mawrth 2011, a chafwyd pleidlais o blaid y cynnig. Daeth y darpariaethau i rym ar 5 Mai 2011.

³ *Grymuso a Chyfrifoldeb – Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru, Argymhelliaid 26, t.137.*

⁴ *Grymuso a Chyfrifoldeb – Pwerau Ariannol i Gryfhau Cymru, paragraff 8.2.12.*

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafft
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

90. Mae *is-adrannau* (4) a (5) yn pennu mai dim ond os yw'r Gorchymyn drafft wedi'i gymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd a mwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf yn y Cynulliad y gellir argymhell bod Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor.
91. Mae *is-adran* (6) yn pennu mai dim ond wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori yn y ffordd y mae'n ei hystyried yn briodol ynghylch y Gorchymyn drafft y gellir ei osod yn y Senedd neu yn y Cynulliad. Byddai ymgynghori o'r fath yn debygol o gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol ymysg eraill.
92. Mae *is-adran* (7) yn cyfeirio'r darllenyydd at fanylion pellach am refferendwm yn Atodlen 1 (gweler paragraff 169).

Cymal 11: Cynnig ar gyfer cynnal refferendwm gan y Cynulliad

93. Cymal 11 sy'n darparu'r mecanwaith y gall y Cynulliad ei ddefnyddio i beri cynnal refferendwm. Mae *is-adrannau* (1) a (2) yn pennu y caiff y Prif Weinidog neu un o Weinidogion Cymru wneud cynnig yn y Cynulliad bod argymhelliaid yn cael ei wneud i'w Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i wneud Gorchymyn yn peri cynnal refferendwm. Os caiff y cynnig ei basio gan ddwy ran o dair o leiaf o ACau, rhaid i'r Prif Weinidog ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i'w hysbysu am hynny cyn gynted ag y bo modd.
94. Mae *is-adran* (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol neu Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor yn gosod Gorchymyn drafft gerbron dau Dŷ'r Senedd o fewn 180 o ddiwrnodau wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol gael llythyr y Prif Weinidog. Os na wnânt hynny, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ysgrifennu at y Prif Weinidog gan ei hysbysu am eu gwirthodiad i osod y Gorchymyn drafft a'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.
95. Mae *is-adran* (4) yn ei gwneud yn ofynnol bod y Prif Weinidog yn gosod copi o'r hysbysiad gerbron y Cynulliad, a rhaid i'r Cynulliad sicrhau bod yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi.

Cymal 12: Cychwyn y darpariaethau ar dreth incwm os bydd mwyafrif o blaid

96. Mae cymal 12 yn disgrifio'r weithdrefn ar gyfer rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm mewn grym os bydd mwyafrif y pleidleiswyr mewn refferendwm yn pleidleisio o blaid hynny. Mae *is-adran* (2) yn caniatáu i Drysorlys EM wneud gorchymyn. Yn ôl *is-adran* (3), gall gorchymyn o'r fath bennu diwrnod pryd y daw'r darpariaethau ar dreth incwm (yng nghymalau 8 a 9) i rym, dynodi blwyddyn dreth yn flwyddyn gyntaf y ceir pasio cynnig ar gyfradd Gymreig ar ei chyfer, neu ddynodi blwyddyn dreth neu flwyddyn ariannol pryd y daw darpariaethau i rym. Gellir gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud gan gymalau 8 a 9 (*is-adran* (4)).

Cymal 13: Treth Gymreig ar drafodion sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir

97. Gyda'i gilydd, mae cymalau 13 a 14 yn darparu'r mecanwaith i roi terfyn ar gasglu a rheoli treth dir y dreth stamp (TDDS) yng Nghymru ac yn caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno ei dreth ei hun ar drafodion tir.
98. Mae cymal 13 yn cyflwyno Pennod 3 newydd yn Rhan 4A o DLIC 2006, sy'n diffinio cwmpas y dreth ddatganoledig hon sydd, yn fras, yn dreth ar drafodion sy'n gymwys i gaffael buddiannau mewn tir yng Nghymru. Mae cymal 14 yn datgymhwys TDDS drwy eithrio trafodion tir yng Nghymru o godi tâl am TDDS, oddi ar ddyddiad sydd i'w bennu gan Drysorlys EM. Mae Atodlen 2 yn cynnwys rhagor o ddiwygiadau sy'n ymwneud â datgymhwys TDDS yng Nghymru ac yn darparu ar gyfer cyflenwi gwybodaeth am drafodion tir yng Nghymru i CThEM.
99. Mae TDDS yn dreth ar drafodion sy'n gymwys wrth gaffael buddiant trethadwy mewn tir. Mae'r diffiniad o fuddiant trethadwy ("chargeable interest") yn adran 48 o Ddeddf Cyllid 2003 yn cynnwys ystad, buddiant, hawl neu bŵer mewn neu dros dir yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon (mae tir yn yr Alban wedi'i eithrio gan Ddeddf yr Alban 2012, er nad yw'r diwygiadau hynny wedi dod i rym eto).
100. Bydd y dreth yn cael ei datganoli'n llwyr drwy eithrio caffaeliadau ar fuddiannau mewn tir yng Nghymru o godi tâl am TDDS a rhoi pŵer i'r Cynulliad i drethu'r caffaeliadau hynny. Gall y dreth ddatganoledig fod yn gymwys heb ystyriaeth i fan preswylio unrhyw barti i'r trafodiad.
101. Mae *is-adran (1)* o gymal 13 yn cyflwyno Pennod 3 (adrannau 116J a 116K) yn y Rhan 4A newydd o DLIC 2006 sy'n darparu ar gyfer y dreth Gymreig ddatganoledig.
102. Mae adran 116J newydd yn darparu ar gyfer y dreth Gymreig ddatganoledig ac yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i godi treth ar drafodion ar y caffaeliadau hynny. Mae *is-adran (1)* yn darparu bod treth a godir ar gaffaeliadau penodol sy'n ymwneud â thir yng Nghymru'n dreth ddatganoledig. Mae *is-adran (2)* yn egluro y ceir cymhwys treth o'r fath pa un a yw'r trafodiad wedi'i gyflawni drwy ddogfen ffurfiol neu beidio a heb ystyriaeth i fan preswylio'r partïon i'r trafodiad.
103. Mae adran 116K yn darparu na fydd trafodion a chyrff statudol penodol yn ddarostyngedig i'r dreth ddatganoledig. Mae *is-adran (1)* yn eithrio trafodion i'r graddau eu bod yn ymwneud â thir sydd o dan y marc distyll cymedrig. Mae *is-adran (2)* yn eithrio Gweinidogion llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig a chyrff corfforaethol sy'n gysylltiedig â deddfwrfeidd yn y DU. Mae hyn yn gyson ag eithriadau tebyg yn y ddeddfwriaeth ar TDDS a bydd yn gymwys i Weinidogion dim ond pan fyddant yn gweithredu yn rhinwedd eu swyddi Gweinidogol.
104. Mae *is-adran (2)* yn sicrhau na all y dreth ddatganoledig fod yn gymwys i drafodiad tir y mae TDDS yn gymwys iddo a thrwy hynny'n cysylltu cychwyn y dreth â datgymhwys TDDS yng Nghymru o dan gymal 14.

Cymal 14: Datgymhwys o treth dir y dreth stamp y DU

105. Mae cymal 14 yn darparu ar gyfer datgymhwys o TDDS drwy gyfeirio at ddyddiad dod i rym ("effective date") y trafodiad tir i ddibenion TDDS. Fel arfer, y dyddiad dod i rym yw dyddiad cwblhau'r contract prynu ond gall fod yn gynharach os bydd y trafodiad wedi'i gyflawni i raddau helaeth (hynny yw, os yw'r gydnabyddiaeth am y trafodiad wedi'i thalu neu'r eiddo wedi'i feddiannu) cyn y dyddiad hwn.
106. Mae *is-adran (1)* yn cyflwyno'r diwygiadau i'r darpariaethau ar TDDS yn Rhan 4 o Ddeddf Cyllid 2003, ac mae *is-adran (2)* yn diwygio'r diffiniad o fuddiannau trethatwy ("chargeable interests") yn adran 48 drwy ei gyfyngu i fuddiannau mewn tir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
107. Mae *is-adran (3)* yn cyflwyno Atodlen 2, sydd wedi'i thrafod yn fanylach ym mharagraff 170 isod.
108. Mae *is-adran (4)* yn cymhwys o'r diwygiadau a gyflwynwyd gan y cymal at drafodion tir ac iddynt ddyddiad dod i rym sydd ar neu ar ôl dyddiad a bennwyd gan Drysorlys EM.
109. Mae *is-adran (5)* yn gwneud darpariaethau trosiannol i sicrhau bod TDDS yn parhau'n gymwys i drafodion lle y mae contract wedi'i wneud cyn neu ar y dyddiad y mae Mesur Cymru yn cael Cydsyniad Brenhinol.
110. Mae *is-adran (6)* yn datgymhwys o'r rheolau trosiannol yn *is-adran (5)* lle y ceir digwyddiadau penodol sy'n ymwneud â'r trafodiad ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

Cymal 15: Treth Gymreig ar wastraff a waredir mewn safleoedd tirlenwi

111. Ar hyn o bryd codir treth tirlenwi am waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon (mae safleoedd tirlenwi yn yr Alban wedi'u heithrio gan Ddeddf yr Alban 2012, er nad yw'r diwygiadau hynny wedi dod i rym eto). Gyda'i gilydd, mae cymalau 15 ac 16 yn darparu'r mecanwaith i roi terfyn ar gasglu a rheoli treth tirlenwi yng Nghymru a chaniatáu i'r Cynulliad gyflwyno ei dreth ei hun ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi.
112. Mae cymal 15 yn cyflwyno Pennod 4 newydd yn Rhan 4A o DLIC 2006, sy'n diffinio cwmpas pŵer Llywodraeth Cymru i gyflwyno treth ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae cymal 16 yn datgymhwys o treth tirlenwi drwy eithrio gwaredu gwastraff yng Nghymru o godi treth tirlenwi oddi ar ddyddiad sydd i'w bennu gan Drysorlys EM.
113. Mae *is-adran (1)* yn cyflwyno Pennod 4 (adran 116L) o Ran 4A newydd o DLIC 2006. Mae adran 116L(1) yn darparu bod treth a godir ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru'n dreth ddatganoledig ac mae adran 116L(2) yn egluro pryd y mae gwaredu'n waredu mewn safle tirlenwi.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafst
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

114. Mae *is-adran* (2) yn sicrhau na ellir codi'r dreth ddatganoledig am waredu gwastraff y mae'r dreth tirlenwi'n gymwys iddo, a thrwy hynny mae'n cysylltu cychwyn y dreth ddatganoledig â datgymhwys o treth tirlenwi yng Nghymru o dan gymal 16.

Cymal 16: Datgymhwys o treth tirlenwi'r DU

115. Mae cymal 16 yn darparu ar gyfer datgymhwys o treth tirlenwi ar waredu gwastraff yng Nghymru drwy gyfeirio at waredu gwastraff ar neu ar ôl dyddiad sydd wedi'i bennu gan Drysorlys EM drwy orchymyn o dan *is-adran* (3). Effaith hyn yw cyfyngu treth tirlenwi i waredu ar wastraff yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon yn rhinwedd diwygio adran 40 o Ddeddf Cyllid 1996 o dan *is-adran* (2) (sydd wedi'i diwygio o'r blaen gan Ddeddf yr Alban 2012).

Cymal 17: Benthyc a gan Weinidogion Cymru

116. Mae'r cymal hwn yn diwygio adrannau 121 a 122 o DLIC 2006, ac yn mewnosod adran 122A newydd, i ddiwygio'r amgylchiadau lle y caiff Gweinidogion Cymru fenthyca ac i egluro'r prif reolaethau a chyfyngiadau ar fenthyca o'r fath.
117. Mae'r cymal yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca – o dan reolaethau a chyfyngiadau Trysorlys EM – at y dibenion canlynol:
- a) rheoli cyfnewidioldeb y derbyniant yn ystod y flwyddyn, lle y mae gwahaniaeth rhwng yr incwm gwirioneddol ar gyfer mis penodol a'r derbyniant a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw;
 - b) darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru (CGC) er mwyn rheoli llif arian;
 - c) delio â'r gwahaniaethau rhwng y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn gyfan a'r derbyniant alldro ar gyfer trethi datganoledig;
- ch) ariannu gwariant cyfalaf.

118. Mae *is-adran* (1) yn cyflwyno'r diwygiadau i DLIC 2006.
119. Mae *is-adran* (2) yn cyflwyno'r diwygiadau i'r darpariaethau presennol ar fenthyca yn adran 121 o DLIC 2006.
120. Mae *is-adran* (3) yn cymryd lle is-adran (1) yn adran 121. Mae'r *is-adran* (1) newydd:
- yn aildeddfu adrannau 121(1)(a) a (b) o DLIC 2006, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca dros dro oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu balans gweithio ar gyfer CGC ac i reoli cyfnewidioldeb y derbyniant yn ystod y flwyddyn; ac

- yn ymestyn pwerau benthycia presennol Gweinidogion Cymru i gynnwys benthycia oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ar draws blynnyddoedd er mwyn ariannu gwyriadau rhwng y rhagolwg ar gyfer y flwyddyn gyfan a derbyniant alldro'r trethi datganoledig.
121. Mae is-adran (3) hefyd yn ychwanegu dwy is-adran newydd yn adran 121((1A) ac (1B)):
- Mae is-adran (1A) yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca symiau i ariannu gwariant cyfalaf, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Drysorlys EM. Rhaid i'r benthycia fod ar ffurf benthyciad un ai oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (drwy'r Ysgrifennydd Gwladol) neu oddi wrth ddarparwr benthyciadau arall, fel banc masnachol. Mae'r is-adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn benthycia drwy gymryd benthyciadau, ac ni chaniateir iddynt gyhoeddi giltiau neu fondiau Cymreig.
 - Mae is-adran (1B) yn diffinio gwariant cyfalaf. Mae'r diffiniad o wariant cyfalaf wedi'i godi o'r rheolau (sydd wedi'u darparu gan Drysorlys EM i Lywodraeth Cymru) ar gyfer paratoi cyfrifon Gweinidogion Cymru o dan adran 131 o DLIC 2006.
122. Mae *is-adran (4)* yn ddiwygiad canlyniadol i gydnabod y ffaith nad oes rhaid benthycia oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ym mhob achos.
123. Mae *is-adran (5)* yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn ac ar ôl cael cydsyniad gan Drysorlys EM, newid y ffynonellau benthycia sydd ar gael i Weinidogion Cymru sydd wedi'u nodi yn yr adran 121(1A) newydd. Rhaid cael cymeradwyaeth gan Dŷ'r Cyffredin i Orchmyntion a wneir o dan yr adran hon drwy'r weithdrefn gadarnhaol.
124. Mae *is-adran (6)* yn cyflwyno'r diwygiadau i'r darpariaethau presennol ar fenthyca yn adran 122 o DLIC 2006.
125. Mae *is-adran (7)* yn pennu bod y terfyn o £500 miliwn sy'n cael ei gymhwys o gyfanswm y prifsymiau sydd heb eu had-dalu a fenthyciwyd o dan yr adran 121 bresennol yn gymwys yn awr i'r pwerau benthycia estynedig sydd wedi'u rhestru yn yr adran 121(1) newydd (hynny yw, nid yw'n cynnwys benthycia ar gyfer gwariant cyfalaf o dan yr is-adran (1A) newydd).
126. Mae *is-adrannau (8) a (9)* yn diwygio adran 122(3) o DLIC 2006 ac yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn ac ar ôl cael cydsyniad gan Drysorlys EM, ddiwygio'r terfyn o £500 miliwn ar fenthyca cyfredol gan Weinidogion Cymru drwy ei godi neu ei ostwng, ond nid yn is na'r terfyn cychwynnol o £500 miliwn ar unrhyw adeg. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gynyddu'r swm o bryd i'w gilydd, er enghraift i gadw'n wastad â chwyddiant neu gwrdd ag amgylchiadau eithriadol. Rhaid cael cymeradwyaeth gan Dŷ'r Cyffredin i Orchmyntion a wneir o dan yr adran hon drwy'r weithdrefn gadarnhaol.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafft
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

127. Mae *is-adran (10)* yn mewnosod adran 122A newydd yn DLIC 2006 sy'n cynnwys darpariaethau ychwanegol ar fenthyca cyfalaf.
128. Mae adran 122A(1) yn darparu na chaiff cyfanswm y prifsymiau sydd heb eu had-dalu a fenthyciwyd o dan adran 121(1A) – benthycia i ariannu gwariant cyfalaf – fod yn fwy na £500 miliwn. Mae'r ddarpariaeth hon, ynghyd â'r un yn adran 121, yn golygu na all cyfanswm y prifsymiau sydd heb eu had-dalu (gwariant cyfredol a chyfalaf) fod yn fwy nag £1 biliwn.
129. Mae adran 122A(2) a (3) yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn ac ar ôl cael cydsyniad gan Drysorlys EM, ddiwygio'r terfyn o £500 miliwn drwy ei godi neu ei ostwng, ond nid yn is na'r terfyn cychwynnol o £500 miliwn ar unrhyw adeg. Rhaid cael cymeradwyaeth i Orchmynion gan Dŷ'r Cyffredin drwy'r weithdrefn gadarnhaol, yn unol â'r is-adran 122A(4) newydd.
130. Mae adran 122A(5), (6) a (7) yn cynnwys rheolau ychwanegol ar fenthyca gan Weinidogion Cymru i ariannu gwariant cyfalaf. Yn benodol:
 - Mae is-adran (5) yn darparu nad yw darparwyr benthyciadau wedi'u rhwymo i wneud ymholiadau am y pŵer i fenthyca (er enghraifft drwy holi a yw Llywodraeth Cymru wedi torri ei therfynau benthycia neu a yw'n gweithredu heb gymeradwyaeth Trysorlys EM). Heb ddarpariaeth o'r fath, byddai gan ddarparwyr benthyciadau le i ofni y byddai amheuaeth ynghylch y pŵer i fenthyca'n peri nad oedd modd gorfodi ad-daliadau am fenthyciadau a gallent ystyried Llywodraeth Cymru yn fenthyciwr peryglus.
 - Mae is-adran (6) yn datgan bod Gweinidogion Cymru wedi'u gwahardd rhag morgeisio neu arwystlo unrhyw eiddo i warantu arian y maent wedi'i fenthyca (ond nid yw hyn yn effeithio ar y rheol yn adran 121(3) o DLIC 2006 bod benthyciadau i'w codi ar CGC).
 - Mae is-adran (7) yn darparu na ellir cymryd camau gorfodi ynghylch unrhyw warant a roddwyd yn groes i is-adran (6).

Cymal 18: Diddymu'r pwerau benthycia presennol

131. Mae'r cymal hwn yn diddymu'r paragraffau yn Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 sy'n ymwneud â benthycia a gwarantu.
132. Mae *is-adran (1)* yn diddymu paragraff 3 (pŵer i Weinidogion Cymru i fenthyca arian) a pharagraff 6 (pŵer i Drysorlys EM i warantu arian sydd wedi'i fenthyca o dan baragraff 3) yn Atodlen 3 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975.
133. Mae *is-adran (2)* yn datgan nad yw'r diddymiadau yn is-adran (1) yn effeithio ar yr atebolrwydd sydd ar Weinidogion Cymru o hyd i ad-dalu arian a fenthyciwyd o'r

blaen o dan baragraff 3, nac ar unrhyw warant a roddwyd o'r blaen gan Drysorlys EM o dan baragraff 6.

134. Mae *is-adrannau* (3), (4) a (5) yn pennu y bydd cyfanswm y prifsymiau sy'n ddyledus ar ôl eu benthyc a gyfer gwariant cyfalaf o dan baragraff 3, yn union cyn i is-adran (1) ddod i rym, yn cyfrif tuag at y terfyn ar fenthyc a cyfalaf sydd wedi'i nodi yn yr adran 122A(1) newydd.

Cymal 19: Adroddiadau ar gyflawni a gweithredu'r Rhan hon

135. Mae'r cymal hwn yn disgrifio'r gofynion a fydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i adrodd ar gyflawni a gweithredu'r pwerau cyllid newydd.
136. Mae *is-adrannau* (1) a (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi adroddiad ar gyflawni a gweithredu'r darpariaethau cyllid yn Rhan 2 o fewn un flwyddyn ar ôl pasio'r Ddeddf ac wedyn cyn pob pen blwydd ar ôl pasio'r Ddeddf. Rhaid parhau i gyhoeddi'r adroddiadau hyn tan flwyddyn ar ôl trosglwyddo'r pwerau trethu a benthyc a'n llwyr i'r Cynulliad ac i Weinidogion Cymru, yn unol ag *is-adran* (4). Rhaid gosod copïau o'r adroddiadau hyn gerbron dau Dŷ'r Senedd a'u hanfon at Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad.
137. Mae *is-adrannau* (2) a (3) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn gwneud ac yn gosod adroddiadau o'r un math gerbron y Cynulliad gan ddilyn yr un amserlen, tan y cyfryw amser sydd wedi'i bennu yn is-adran (4), ac yn darparu copi o bob adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w osod gerbron dau Dŷ'r Senedd.
138. Mae *is-adrannau* (5) a (6) yn egluro sut y penderfynir bod darpariaeth yn Rhan 2 wedi'i chyflawni, er mwyn pennu am ba hyd y bydd yn rhaid parhau i gyhoeddi'r adroddiadau .
139. Mae *is-adran* (7) yn rhestru'r meysydd y mae'n rhaid eu cynnwys ym mhob adroddiad:
- diweddariad ar bob agwedd ar gynnydd tuag at gyflawni'r darpariaethau yn Rhan 2 ers yr adroddiad blaenorol;
 - unrhyw gamau pellach y dylid eu cymryd i gyflawni'r darpariaethau yn Rhan 2;
 - asesiad o weithrediad y darpariaethau yn Rhan 2 sydd wedi'u cyflawni;
 - asesiad o unrhyw newidiadau yn y darpariaethau yn Rhan 2;

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafst
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013

- e) yr effaith ar floc grant Cymru o ganlyniad i drosglwyddo pwerau trethu;
- f) unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â ffynonellau refeniw'r Cynulliad y dylid eu dwyn i sylw'r Senedd neu'r Cynulliad.
140. Nes ceir pleidlais o blaid rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm mewn grym, mae *is-adran* (8) yn eithrio adrannau 8 a 9 (darpariaethau ar dreth incwm) o'r datganiadau sy'n ofynnol o dan *is-adran* (7)(a) a (7)(b).

RHAN 3: AMRYWIOL

Cymal 20: Awdurdodau tai lleol: terfynau ar ddyled y cyfrif refeniw tai

141. Mae cymal 20 yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989").
142. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Trysorlys i osod terfyn ar lefel uchaf y ddyled tai y mae awdurdodau tai lleol ("ATLlau") Cymru yn cael ei dal, gyda'i gilydd, ac yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidog Cymru yn penderfynu pa faint o ddyled tai y caiff pob ATLl ei dal o dan y terfyn hwnnw. Mae hyn yn creu system debyg yng Nghymru i'r un sy'n gymwys yn Lloegr yn rhinwedd adrannau 171 – 173 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.
143. Mae *is-adran* (1) yn cyflwyno'r diwygiadau i Ddeddf 1989.
144. Mae *is-adran* (2) yn mewnosod adran 76A newydd yn Neddf 1989. Mae'n darparu:
- y caiff y Trysorlys benderfynu ar uchafswm y ddyled tai y caiff ATLlau Cymru ei dal gyda'i gilydd;
 - bod rhaid i'r Trysorlys anfon copi o'i benderfyniad at Weinidogion Cymru a gosod copi ohono gerbron Tŷ'r Cyffredin;
 - y caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau o bryd i'w gilydd yngylch pob ATLl am faint y ddyled tai yr ystyrir ei fod yn ei dal ac uchafswm y ddyled tai y caiff ei dal;
 - na fydd y cyfanswm y caiff Gweinidogion Cymru ei benderfynu fod yn fwy na'r swm sydd wedi'i benderfynu gan y Trysorlys;
 - bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau o fewn 6 mis ar ôl cael penderfyniad gan y Trysorlys;
 - diffiniad o ddyled tai sef dyled sy'n cael ei dal gan yr ATLl yng nghyswllt swyddogaethau tai'r ATLl ac eiddo arall yn ei Gyfrif Refeniw Tai.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafst
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

145. Mae *is-adran (3)* yn diwygio adran 85 o Ddeddf 1989 fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau y mae'n eu darparu i gael gwybodaeth gan ATLLau at ddibenion yr adran 76A newydd.
146. Mae *is-adran (4)* yn cyflwyno diwygiadau i adran 87 o Ddeddf 1989 (sy'n darparu ar gyfer y ffordd o wneud penderfyniadau a hysbysu ATLLau amdanynt).
147. Mae *is-adran (5)* yn newid cyfeiriadau yn adran 87 at "Secretary of State" yn "appropriate person". Y diffiniad o "appropriate person" yn adran 88 o Ddeddf 1989 yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr a Gweinidogion Cymru yng Nghymru.
148. Mae *is-adran (6)* yn darparu nad yw *is-adran (1)(b)* o adran 87 (sy'n darparu y gellir gwneud penderfyniadau cyn, yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi) yn gymwys i benderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru o dan yr adran 76A newydd.
149. Mae *is-adran (7)* yn cymhwys o'r term "appropriate person" a ddiffiniwyd at adran 87(2).

Cymal 21: Gwaith gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â Chymru

150. Mae'r pwerau sydd gan Gomisiwn y Gyfraith ar hyn o bryd ar gyfer cyngori Llywodraeth Cymru yn aneglur. Ar hyn o bryd, adrannau llywodraeth y DU yw'r unig rai sy'n cyfeirio materion sy'n ymwneud â diwygio cyfraith Cymru a Lloegr, er y gall Llywodraeth Cymru ofyn i'r adrannau hyn gyfeirio materion ar ran Llywodraeth Cymru.
151. Mae cymal 21 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 ("Deddf 1965") er mwyn gosod dyletswydd newydd ar Gomisiwn y Gyfraith i ddarparu cyngor a gwybodaeth yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn ei gwneud yn glir y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cyfeirio materion sy'n ymwneud â diwygio'r gyfraith at Gomisiwn y Gyfraith eu hunain.
152. Mae *is-adran 3* o'r cymal hwn yn darparu nad yw'n ofynnol bod yr Arglwydd Ganghellor, wrth baratoi adroddiadau ar gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith o dan yr adran 3A bresennol yn Neddf 1965, yn adrodd ar gynigion y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd arnynt o dan yr adran 3C newydd.
153. Mae adran 3C newydd wedi'i mewnosod yn Neddf 1965 gan *is-adran 4* o gymal 21 i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad blynnyddol i'w osod gerbron y Cynulliad. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion unrhyw gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru ac sydd, ers yr adroddiad diwethaf, un ai wedi'u cyflawni neu heb gael eu cyflawni eto.
154. Y diffiniad o gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith yw unrhyw gynnig neu argymhelliaid i ddiwygio'r gyfraith sydd wedi'i gyhoeddi mewn adroddiad gan Gomisiwn

Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafst
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013

y Gyfraith. Bydd cynnig gan Gomisiwn y Gyfraith yn ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru ("Welsh devolved matters") os yw o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu os yw'n fater sy'n ymwneud â swyddogaethau y gellir eu harfer gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

155. Os cafwyd cynigion yn y flwyddyn flaenorol sydd eto i'w cyflawni, rhaid cynnwys cynlluniau ar gyfer eu cyflawni, unrhyw benderfyniadau i beidio â'u cyflawni, a'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad o'r fath, yn adroddiad Gweinidogion Cymru. Os nad oes unrhyw gynigion a gafwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn y flwyddyn ers yr adroddiad blaenorol ar faterion a ddatganolwyd i Gymru sydd heb eu cyflawni, ni fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad i'r Cynulliad.
156. Mae is-adran (4) o gymal 21 hefyd yn mewnosod adran 3D newydd yn Nedd 1965 i ddarparu ar gyfer protocol ynghylch gwaith gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â Chymru. Byddai Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru yn cytuno ar y protocol a ddefnyddir ar gyfer gwaith gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru.
157. Mae'n ofynnol bod yr Arglwydd Ganghellor yn cymeradwyo'r protocol, a all gynnwys darpariaeth ynghylch yr egwyddorion a'r dulliau i'w cymhwyswrth benderfynu pa waith y bydd Comisiwn y Gyfraith yn ei gyflawni, y cyngor a'r wybodaeth y bydd Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru yn rhoi i'w gilydd, a'r ffordd y bydd Gweinidogion Cymru yn delio â chynigion gan Gomisiwn y Gyfraith. Mae'r is-adran hon wedi'i geirio mewn ffordd sy'n caniatáu hyblygrwydd ynghylch darpariaethau'r protocol, er enghraifft yng nghyswllt ariannu ac agweddu ymarferol eraill ar faterion a gaiff eu cyfeirio gan Weinidogion Cymru.
158. Mae is-adran (4) hefyd yn darparu bod rhaid adolygu'r protocol yn gyson a bod rhaid ei osod gerbron y Cynulliad. Mae'n rhoi dyletswydd benodol hefyd ar Weinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith i ddal sylw ar y protocol.
159. Mae *is-adran 5* o gymal 21 yn gwneud diwygiad bach yn adran 5 o Ddeddf 1965 i egluro y bydd treuliau Comisiwn y Gyfraith bellach yn deillio nid yn unig o'r Senedd ond oddi wrth Weinidogion Cymru hefyd.

RHAN 4: CYFFREDINOL

Cymal 22: Gorchmynion

160. Mae cymal 22 yn pennu y bydd unrhyw orchymyn a wneir o dan y Ddeddf hon yn cael ei wneud drwy offeryn statudol.

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafst
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

Cymal 23: Dehongli

161. Cymal 23 yw'r cymal dehongli ar gyfer y Mesur drafst.

Cymal 24: Pŵer i wneud darpariaeth atodol, ganlyniadol, etc

162. Mae *is-adran (1)* o gymal 24 yn rhoi pŵer i Drysorlys EM i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, drwy wneud gorchymyn, yn ôl yr hyn sy'n ymddangos yn briodol i roi'r darpariaethau yn Rhan 2 (cyllic) mewn grym. Gellir defnyddio gorchymynion o'r fath hefyd i wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed yn ôl yr hyn sy'n ymddangos yn briodol. Mae *is-adran (3)* yn egluro bod gorchymyn sydd wedi'i wneud o dan yr adran hon yn gallu addasu'r Ddeddf ei hun, neu ddeddfiad sydd wedi'i basio cyn y Ddeddf hon neu yn yr un sesiwn â'r Ddeddf hon.
163. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi hyblygrwydd i Drysorlys EM i ddiwygio deddfwriaeth, er enghraifft, er mwyn paratoi ar gyfer rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm (yng nghymalau 8 a 9) mewn grym ar ôl pleidlais o blaid hynny mewn refferendwm (y darperir ar ei gyfer o dan gymalau 10 ac 11).
164. Mae *is-adran (4)* yn ei gwneud yn ofynnol bod gorchymyn yn cael ei gymeradwyo gan Dŷ'r Cyffredin os yw'n cynnwys darpariaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i gwneud yn y Senedd neu'r Cynulliad. Os nad yw'n cynnwys darpariaeth o'r fath, mae *is-adran (5)* yn pennu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn cael ei defnyddio.

Cymal 25: Cychwyn

165. Mae cymal 25 yn egluro sut y bydd adrannau'r Mesur yn cael eu cychwyn. Mae *is-adran (1)* yn pennu y bydd Rhan 4 (gan gynnwys yr adran hon) yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio. O dan *is-adran (2)*, bydd adrannau eraill y Mesur yn dod i rym ddau fis ar ôl pasio'r Ddeddf, ac eithrio adrannau 8 a 9 (y darpariaethau ar dreth incwm), adrannau 17 a 18 (benthyc a Weinidogion Cymru) ac adran 20 (awdurdodau tai lleol: terfynau ar ddyled y cyfrif refeniw tai).
166. Mae *is-adran (3)* yn egluro bod y camau i roi adrannau 13 a 14 (treth Gymreig ar drafodion tir) ac adrannau 14 a 15 (treth Gymreig ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi) mewn grym yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn yr adrannau hynny am y ffordd y byddant yn cael eu gweithredu.
167. Mae *is-adran (4)* yn darparu ar gyfer rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm yn adrannau 8 a 9 mewn grym ar ôl pleidlais gadarnhaol mewn refferendwm yn unol ag adran 12. Mae *is-adran (5)* yn darparu ar gyfer rhoi adrannau 17 a 20 mewn grym ar ddiwrnod a gaiff ei bennu drwy orchymyn gan Drysorlys EM. Mae *is-adran (6)* yn caniatáu i Drysorlys EM bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol wrth roi adran 17 ac adran 20 mewn grym. Mae *is-adran (7)* yn darparu ar gyfer rhoi adran 18 mewn grym ar y diwrnod y mae adran 121(1A) o DLIC 2006, sydd wedi'i mewnosod gan

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafft
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

adran 17, yn dod i rym. Mae hyn yn sicrhau bod y pŵer benthyc a presennol yn cael ei ddiddymu ar yr un pryd ag y mae'r pŵer newydd yn dod i rym.

Cymal 26: Rhychwant a theitl byr

168. Mae cymal 26 yn pennu rhychwant tiriogaethol a theitl byr y Mesur.

Atodlen 1: Refferendwm ynghylch cychwyn darpariaethau ar dreth incwm

169. Mae Atodlen 1 yn disgrifio fframwaith ar gyfer cynnal refferendwm ynghylch rhoi'r darpariaethau ar dreth incwm mewn grym. Mae wedi'i drafftio gan ddefnyddio termau tebyg i'r rhai yn Atodlen 6 i DLIC 2006. Yn benodol, mae'n pennu pwy a fydd yn gymwys i bleidleisio, sut y caiff gwybodaeth ei darparu i bleidleiswyr, sut y caiff y refferendwm ei ariannu a sut y gellir herio'r canlyniad yn gyfreithiol. Mae'r Atodlen yn rhoi mwy o fanylion hefyd am y darpariaethau i'w cynnwys mewn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir o dan gymal 10.

Atodlen 2: treth Gymreig ar drafodion tir: diwygiadau canlyniadol

170. Mae Rhan 1 o'r Atodlen yn cynnwys diwygiadau pellach sy'n ymwneud â datgymhwysos TDDS yng Nghymru ac mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer cyflenwi gwybodaeth i CThEM am drafodion tir yng Nghymru (gan na fydd y wybodaeth hon ar gael bellach i CThEM mewn datganiadau am drafodion tir).

EFFEITHIAU ARIANNOL

171. Mae effeithiau ariannol uniongyrchol y Mesur yn fach iawn.

GWEITHLU'R SECTOR CYHOEDDUS

172. Rhagwelir na fydd unrhyw newidiadau yn staff adrannau'r Llywodraeth na'u hasiantaethau o ganlyniad i'r Mesur hwn.

ASESIAD ENFAITH

173. Mae asesiad enfaith cryno wedi'i baratoi i gyd-fynd â'r Mesur drafft.

CYDNAWSEDD Â'R CONFENSIWN EWROPEAIDD AR HAWLIAU DYNOL

174. Mae adran 19(1)(a) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Gweinidog sy'n gyfrifol am y Mesur yn gwneud datganiad sy'n cadarnhau ei fod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("CEHD").

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at y Mesur Cymru drafst
Cyhoeddwyd ar gyfer Craffu cyn y Broses Ddeddfu ar 18 Rhagfyr 2013*

175. Mae Swyddfa Cymru wedi dadansoddi'r Mesur o ran ei gydnawsedd â'r CEHD ac mae wedi'i bodloni y bydd y Gweinidog perthnasol mewn sefyllfa, wrth gyflwyno'r Mesur, lle y bydd yn gallu gwneud datganiad yn unol ag adran 19(1)(a) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a bod y darpariaethau sydd yn y Mesur yn gydnaws â'r hawliau sydd yn y CEHD. Credir ei bod yn annhebygol y bydd darpariaethau'r Mesur yn cael eu herio ar y sail eu bod yn anghydnaus â'r CEHD, neu y byddai her o'r fath yn llwyddiannus.

		Impact Assessment (IA)
Title: Asesiad Effaith o'r Mesur Cymru drafft		Date: 18/12/2013
IA No:		Stage: Final
Lead department or agency: Swyddfa Cymru		Source of intervention: Domestic
Other departments or agencies: Trysorlys EM, Cyllid a Thollau EM, Adran Gwaith a Phensiynau		Type of measure: Primary legislation
		Contact for enquiries: Peter Newbitt 029 2092 4205

Summary: Intervention and Options	RPC Opinion: Not Applicable
--	------------------------------------

Cost of Preferred (or more likely) Option				
Total Net Present Value £m	Business Net Present Value £m	Net cost to business per year (EANCB on 2009 prices) £m	In scope of One-In, Two-Out? Yes/No	Measure qualifies as In/Out/zero net cost

What is the problem under consideration? Why is government intervention necessary?

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i droi tymhorau'r Cynulliad yn dymhorau penodol 5 mlynedd, i wrth-droi'r gwaharddiad ar sefyll yn ymgeisydd i'r Cynulliad mewn etholaeth ac mewn rhanbarth, ac i atal ACau rhag eistedd hefyd fel ASau. Mae'r Mesur Cymru drafft yn gweithredu'r argymhellion yn adroddiad Rhan I y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012, gan gynnwys y posiblirwydd o gynnal refferendwm ar ddatganoli pwerau dros dreth incwm i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a datganoli trethi sy'n codi symiau llai. Rhoddir terfyn ar system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru ac mae angen cyflwyno capiau ar fenthyc a dan system ar gyfer y dyfodol

What are the policy objectives and the intended effects?

Byddai'r Mesur drafft yn troi tymhorau'r Cynulliad yn dymhorau penodol 5 mlynedd er mwyn ei gwneud yn llai tebygol y bydd etholiadau i'r Cynulliad yn digwydd yr un pryd ag etholiadau seneddol y DU, ac yn cyflwyno darpariaethau etholiadol ychwanegol i wneud etholiadau i'r Cynulliad yn decach. Os caiff y Mesur drafft ei wneud yn Ddeddf bydd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am y tro cyntaf am godi cyfran o'r arian y maent yn ei wario. Yr amcan yn hyn o beth yw caniatáu i bobl Cymru ddal y sefydliadau datganoledig yng Nghymru yn atebol am yr arian y maent yn ei wario. Os caiff y Mesur drafft ei wneud yn Ddeddf, bydd hefyd yn darparu ar gyfer gosod capiau ar fenthyc gan awdurdodau lleol yng

What policy options have been considered, including any alternatives to regulation? Please justify preferred option (further details in Evidence Base)

Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y darpariaethau yngylch etholiadau i'r Cynulliad rhwng Mai ac Awst 2012. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Tachwedd 2012. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gapio benthyca gan awdurdodau lleol sy'n bwriadu rheoli eu stoc dai eu hunain. Roedd yr argymhellion gan y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru wedi'u seilio ar dystiolaeth a gymerodd ledled Cymru a thu hwnt ac, ym mis Tachwedd 2013, derbyniodd Llywodraeth y DU argymhellion y Comisiwn i roi mwy o atebolwydd ariannol i'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru.

Will the policy be reviewed? It will/will not be reviewed. If applicable, set review date: Month/Year

Does implementation go beyond minimum EU requirements?	N/A		
Are any of these organisations in scope? If Micros not exempted set out reason in Evidence Base.	Micro No	< 20 No	Small No
What is the CO ₂ equivalent change in greenhouse gas emissions? (Million tonnes CO ₂ equivalent)	Traded:		Non-traded:

I have read the Impact Assessment and I am satisfied that (a) it represents a fair and reasonable view of the expected costs, benefits and impact of the policy, and (b) that the benefits justify the costs.

Signed by the responsible Minister:

Date:

Summary: Analysis & Evidence

Policy Option 1

Description:

FULL ECONOMIC ASSESSMENT

Price Base Year	PV Base Year	Time Period Years	Net Benefit (Present Value (PV)) (£m)			
			Low: Optional	High: Optional	Best Estimate:	
COSTS (£m)		Total Transition (Constant Price) Years	Average Annual (excl. Transition) (Constant Price)		Total Cost (Present Value)	
Low	Optional		Optional	Optional	Optional	
High	Optional		Optional	Optional	Optional	
Best Estimate						
Description and scale of key monetised costs by 'main affected groups'						
Bydd y gost o ddarparu pŵer i'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru i wneud penderfyniadau ynghylch sut y byddant yn codi rhan o'r arian y maent yn ei wario yn ddarostyngedig i benderfyniadau polisi yn y dyfodol gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a gynhelir refferendwm ar ddatganoli pwerau dros dreth incwm. Y capiau ar fenthyc a awdurdodau lleol. Nid oes cost sylweddol yn gysylltiedig â'r darpariaethau etholiadol yn y Mesur drafft na'r darpariaethau cyfansoddiadol bach eraill						
Other key non-monetised costs by 'main affected groups'						
Llywodraeth Cymru: Byddai datganoli pwerau trethu'n gwneud y gyllideb yn fwy cyfnewidiol.						
BENEFITS (£m)		Total Transition (Constant Price) Years	Average Annual (excl. Transition) (Constant Price)		Total Benefit (Present Value)	
			Optional	Optional	Optional	
Low	Optional		Optional	Optional	Optional	
High	Optional		Optional	Optional	Optional	
Best Estimate						
Description and scale of key monetised benefits by 'main affected groups'						
Bydd troi tymhorau'r Cynulliad yn dymhorau penodol 5 mlynedd yn rhoi arbediad bach sydd wedi'i amcangyfrif yn £4.5 miliwn yn nhermau Gwerth Presennol Net gan y bydd etholiadau'r Cynulliad yn digwydd yn llai aml. Bydd y gost o ddarparu pŵer i'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru i wneud penderfyniadau ynghylch sut y byddant yn codi rhan o'r arian y maent yn ei wario yn ddarostyngedig i benderfyniadau polisi yn y dyfodol gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a gynhelir						
Other key non-monetised benefits by 'main affected groups'						
Llywodraeth Cymru: Y gallu i fenthyc a symiau mwy i ariannu prosiectau a gwasanaethau ychwanegol; Llywodraeth y DU: Bydd capiau ar fenthyc a awdurdodau lleol yn hyrwyddo benthyca a gwariant mwy darbodus, ac yn atal benthyca di-hid rhag cyfrannu at y ddyled genedlaethol. Etholwyr Cymru: Y gallu i ddal y sefydliadau datganoledig yng Nghymru yn atebol am yr arian y maent yn ei wario						
Key assumptions/sensitivities/risks			Discount rate (%)			
Amherthnasol.						

BUSINESS ASSESSMENT (Option 1)

Direct impact on business (Equivalent Annual) £m:	In scope of OIOT?	Measure qualifies as
Costs: Benefits: Net:	No	NA

Sylfaen Dystiolaeth (ar gyfer y taflenni crynodeb)

Y Mesur Cymru drafft

Mae'r Mesur Cymru drafft yn cynnwys 26 o gymalau ac mae'r Asesiad Effaith hwn yn trafod 18 o'r rhain. Mae'r cymalau sy'n weddill o natur gyfansoddiadol ac felly nid ydynt o fewn cwmpas yr Asesiad Effaith hwn. Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n dilyn yn delio â'r meysydd allweddol yn y Mesur drafft fusul un. Byddai'r mesurau ynghylch trethiant sydd wedi'u darparu yn y Mesur drafft yn cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") felly mae'n amhosibl pennu union faint unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â threthi o'r fath yn yr Asesiad Effaith hwn.

1. MESURAU ETHOLIADOL YN Y MESUR CYMRU DRAFFT

Mabwysiadu tymhorau pum mlynedd

Disgrifiad o'r mesurau

Mae Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011 wedi symud etholiadau nesaf y Cynulliad ymlaen un flwyddyn i 2016 am unwaith yn unig fel na fyddant yn digwydd yr un pryd ag etholiadau seneddol nesaf y DU yn 2015. O dan y papur Gwydd ar Drefniadau Etholiadol y Dyfodol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Papur Gwydd") ymgyngorodd y Llywodraeth ar gynnig i ymestyn tymhorau'r Cynulliad yn barhaol i bum mlynedd er mwyn ei gwneud yn llai tebygol iddynt gyd-ddigwydd ag etholiadau seneddol yn y dyfodol. Ar ôl yr ymgyngoriad, ym Mawrth 2013 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y bydd etholiadau'n digwydd bob pum mlynedd o 2016, ac mae'r Mesur drafft yn darparu ar gyfer hyn.

Opsiynau a ystyriwyd

Yr opsiwn arall yr ymgyngorodd y Llywodraeth arno oedd peidio â gwneud dim, gan sicrhau bod tymor y Cynulliad yn parhau'n 4 blynedd o hyd, fel bod posibilrwydd y bydd y ddwy set o etholiadau'n cyd-ddigwydd bob 20 mlynedd. Gwrthodwyd yr opsiwn hwn gan fwyafir yr ymatebwyr i'r ymgyngoriad a oedd o blaid mabwysiadu tymhorau penodol 5 mlynedd.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â mabwysiadu tymhorau 5 mlynedd

Byddai ymestyn tymhorau'r Cynulliad o bedair i bum mlynedd yn galw am gynnal etholiadau i'r Cynulliad yn llai aml. Nododd y Papur Gwydd mai cost gweinyddu etholiadau'r Cynulliad yw £5.0 miliwn yn nhermau prisiau 2012/13 (£5.12 miliwn yn nhermau prisiau 2013/14), ac maent hefyd yn costio £1.1 miliwn pellach i bleidiau gwleidyddol yn nhermau prisiau 2012/13 (£1.12 miliwn yn nhermau prisiau 2013/14), felly byddai hyn yn rhoi arbediad bach o £4.4 miliwn yn nhermau Gwerth Presennol Net (£4.5 miliwn yn nhermau Gwerth Presennol Net 2013/14).

Ymgeisyddiaeth ddeuol

Disgrifiad o'r mesurau

Mae'r darpariaethau yn y Mesur drafft yn gwrth-droi'r gwaharddiad ar ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad rhag sefyll mewn etholaeth ac mewn rhanbarth yr un pryd, a gyflwynwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Ymgyngorodd y Llywodraeth ar hyn yn y Papur Gwydd, ac ym Mawrth 2013 cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y bydd y gwaharddiad yn cael ei ddileu.

Opsiynau a ystyriwyd

Gofynnwyd hefyd yn y Papur Gwydd am sylwadau ynghylch a ddylai'r gwaharddiad barhau. Roedd mwyafir bach o ymatebwyr o blaid cadw'r gwaharddiad, ond nid yw'r Llywodraeth yn credu bod dadl ddigon cryf wedi'i chyflwyno o blaid hyn yn yr ymatebion i'r ymgyngoriad.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â chyflwyno ymgeisyddiaeth ddeuol

Yn y Papur Gwydd, ni nodwyd unrhyw gostau ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â gwrth-droi'r gwaharddiad ar ymgeisyddiaeth ddeuol. Byddai terfynu'r gwaharddiad yn fanteisiol i'r broses ddemocratiaidd yng Nghymru hefyd drwy gyfyngu i lai o raddau ar ymgeiswyr a phleidiau, a byddai'n hyrwyddo safon uwch o aelodau yn y Cynulliad.

Gwahardd mandadau lluosog

Disgrifiad o'r mesurau

Mae'r Mesur drafft yn cynnwys darpariaethau i atal Aelod Seneddol rhag eistedd yn Aelod Cynulliad yr un pryd, ar ôl cyfnod gras o 8 diwrnod. Ymgynghorodd y Llywodraeth ar hyn yn y Papur Gwydd a chyhoeddodd ym Mai 2013 y bydd gwaharddiad o'r fath yn cael ei gyflwyno. Mae'r Mesur drafft yn darparu ar gyfer hyn.

Opsiynau a ystyriwyd

Gofynnwyd hefyd yn y Papur Gwydd am sylwadau ynghylch a ddylid cadw'r sefyllfa bresennol, gan ganiatáu i ASau eistedd yn ACau hefyd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gwrthod yr opsiwn hwn gan ffafrio gwaharddiad.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â gwahardd mandadau lluosog

Nododd y Papur Gwydd fod cost ddichonol o £13,600 y flwyddyn i'r Cynulliad am weithredu'r darpariaethau, gan fod cyflogau ACau sydd hefyd yn eistedd yn ASau yn ddwy ran o dair yn llai, a byddai gwahardd trefniadau o'r fath yn golygu bod angen talu cyflog llawn i fwy o ACau. Fodd bynnag, byddai etholwyr yng Nghymru ar eu hennill o wybod eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn gan y rhai y maent yn eu hethol.

2. MESURAU TRETHU YN Y MESUR DRAFFT

Trethi newydd

Disgrifiad o'r mesurau

Roedd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru wedi argymhell i gyflogu trethi penodol, gyda chytundeb Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn yr argymhelliaid hwn, ar yr amod y bydd ar sail yr egwyddor o "ddim niwed", fel y bydd y grant bloc yn cael ei addasu os rhagwelir y bydd treth newydd yng Nghymru'n lleihau refeniwr Trysorlys.

Opsiynau polisi

Yn ei ymgynghoriad, gofynnodd y Comisiwn am sylwadau ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru gael y gallu i gyflwyno trethi newydd. Roedd dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos bod 48% yn erbyn unrhyw newid o'r fath, er bod arolwg barn ar wahân a gomisiynwyd gan y Comisiwn yn dangos bod 72% o'r ymatebwyr o blaid rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd er mwyn newid ymddygiad pobl mewn ffordd debyg i'r taliadau am fagiau siopa sydd wedi'u cyflwyno.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â threthi newydd yng Nghymru

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl pennu'r costau neu effeithiau o unrhyw drethi newydd y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflwyno yn y dyfodol (gyda chytundeb Llywodraeth y DU), gan y byddai penderfyniadau ynghylch sut i weinyddu a chasglu'r trethi hynny'n fater i Lywodraeth Cymru.

Treth incwm

Disgrifiad o'r mesurau trethu

Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer Rhan I o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ("y Comisiwn") yn nodi mai ei rôl oedd "Adolygu'r dadleuon o blaidd datganoli pwerau cyllidol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac argymhell pecyn o bwerau a fyddai'n gwella atebolrwydd ariannol y Cynulliad, sy'n gyson ag amcanion cyllidol y Deyrnas Unedig ac yn debygol o dderbyn cefnogaeth eang". Egwyddor sylfaenol y mesurau trethu yn y Mesur yw cyfnewid rhan o'r grant bloc am bŵer i'r Cynulliad godi rhywfaint o'i refeniw ei hun drwy godi trethi, gan wneud y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn fwy atebol i'r bobl sy'n eu hethol.

Mae'r Mesur drafft yn darparu ar gyfer rhannu'r sylfaen treth incwm yng Nghymru rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar yr amod y ceir pleidlais o blaid hynny mewn refferendwm, drwy ddidynnu 10c o'r cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yng Nghymru a chaniatáu i Lywodraeth Cymru benderfynu, ac i'r Cynulliad osod, cyfradd dreth incwm sengl ar draws yr holl fandiau treth. Byddai CThEM yn parhau i gasglu'r gyfradd dreth incwm Gymreig ar wahân o fewn y fframweithiau presennol ar gyfer TWE a Hunanasesu. Bydd y gyfradd Gymreig yn gymwys i incwm o enillion, pensiynau a ffynonellau eraill heblaw cynillion yn unig.

Mae'r Mesur drafft yn gweithredu argymhelliaid y Comisiwn na fydd pwerau i osod cyfradd dreth incwm Gymreig yn cael eu datganoli oni bai fod mwyafrif y pleidleiswyr yn cefnogi hynny mewn refferendwm a gychwynnir drwy bleidlais yn y Cynulliad.

Opsiynau polisi

Wrth argymhelliaid bod y gallu i osod y gyfradd dreth incwm yn cael ei ddatganoli i Gymru, datganodd y Comisiwn ei gred y dylai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am dreth y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei thalu, fel y bydd rhan gan bobl yn y penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad. Yn arolwg barn y Comisiwn yngylch datganoli pwerau treth incwm, cafwyd bod 64% o blaid hynny a 33% yn erbyn. Nododd y Comisiwn mai un o brif ganfyddiadau'r arolwg barn oedd bod mwyafrif yn credu y byddai datganoli pwerau treth incwm yn peri i Lywodraeth Cymru weithio'n galetach i gynyddu refeniw a hybu economi Cymru.

Roedd y Comisiwn wedi argymhelliaid bod Llywodraeth Cymru yn cael y gallu i amrywio pob un o'r tair cyfradd dreth incwm yn annibynnol ar ei gilydd, yn hytrach na'r sefyllfa a gyflwynwyd drwy Ddeddf yr Alban 2012, lle y mae'n rhaid i Lywodraeth yr Alban amrywio'r tair cyfradd i fyny neu i lawr i'r un graddau. Nid oedd Llywodraeth y DU wedi derbyn yr argymhelliaid hwn oherwydd ei effaith bosibl ar flaengaredd system drethi'r DU ac ar refeniw'r DU yn gyffredinol.

Roedd y Comisiwn hefyd wedi ystyried datganoli trethi eraill sy'n codi symiau sylweddol fel treth gorfforaeth, treth ar werth a chyfraniadau yswiriant gwladol ond ni roddodd argymhelliaid o blaid eu datganoli yn y diwedd.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â datganoli treth incwm yng Nghymru

Fel y nodwyd uchod, mae'r Mesur drafft yn darparu ar gyfer cynnal refferendwm, lle y bydd mwyafrif y pleidleiswyr yn pleidleisio o blaid, cyn y gellir datganoli pwerau treth incwm. Yn 2011 cynhalwyd refferendwm yng Nghymru yngylch a ddylid rhoi pwerau deddfu llawn i'r Cynulliad yn yr 20 o feysydd sydd wedi'u datganoli iddo. Cafwyd gwybod gan y Comisiwn Etholiadol fod ymgyrch y refferendwm wedi costio cyfanswm o £5.89 miliwn. Roedd y ffigur hwn yn llai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, yn rhannol am nad oedd y Comisiwn Etholiadol wedi dynodi ymgyrchoedd swyddogol "o blaid" ac "yn erbyn", fel nad oedd unrhyw arian cyhoeddus wedi'i wario ar eu hymgyrchu. Os ceir refferendwm ar bwerau treth incwm, byddai'r rhan fwyaf o'r gost yn cael ei hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n gyfrifol am y trefniadau etholiadol, tra byddai'r costau i'r Comisiwn Etholiadol am unrhyw ymgyrch gyhoeddusrwydd y mae'n ei chynnal ac am arian a roddir i unrhyw ymgyrchoedd "o blaid" ac "yn erbyn" a ddynodir yn cael eu talu iddo drwy'r Gronfa Gyfunol.

Pe byddai'r refferendwm yn llwyddiannus, byddai'r costau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau treth incwm yn cael eu rhannu'n ddau fath: costau uniongyrchol sy'n deillio o unrhyw gynnydd yn yr atebolrwydd i dalu treth a bennir drwy'r gyfradd Gymreig a'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gyfradd Gymreig.

Ar hyn o bryd, derbyniadau treth incwm yw 30% o gyfanswm y refeniw treth yng Nghymru, sef tua £4.85bn yn 2010-11. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl pennu'r costau neu fuddion o ddatganoli treth incwm yng Nghymru yn union gan y byddai'r cyfraddau treth yn cael eu penderfynu yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai unrhyw wahaniaeth rhwng y cyfraddau treth incwm o fewn y DU yn gallu peri i breswylwyr un o'r gwledydd symud i wlad arall i fwynhau cyfraddau treth is, fel y byddai'r derbyniadau treth yn llai yn y wlad arall. Er hynny, nid oedd y Comisiwn yn credu bod hyn yn ystyriaeth bwysig gan nad yw'r gwahaniaeth presennol ym meichiau'r dreth gyngor rhwng awdurdodau lleol ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn cyfrannu at lifau ymfudo amlwg ar draws y ffin. Bydd y broblem hon yn cael ei lleddfu ymhellach gan y system ar gyfer datganoli treth incwm sy'n cael ei gweithredu yn y Mesur hwn.

Bydd effaith ar yr holl gyflogwyr yn y DU, lle bynnag y maent, gan y bydd angen gallu delio â threthdalwyr Cymreig yn eu systemau cyflogres. Mae system wedi bod ar waith ledled y DU ers creu cyfradd amrywiadwy'r Alban yn Neddf yr Alban 1998 ac felly gellir ei haddasu i gydymffurfio â'r system dreth newydd yng Nghymru. Ni fydd modd pennu'r union effaith ar systemau nes bydd gofynion y prosesau ar gyfer y gyfradd Gymreig yn fwy clir; bydd y rhain yn cael eu mireinio wrth eu datblygu.

Nododd y Comisiwn hefyd mai'r amcangyfrif o'r gost am uwchraddio systemau TG a phrosesau gweithredu CThEM i ddelio â'r newidiadau mewn pwerau treth incwm o ganlyniad i Ddeddf yr Alban 2012 yw tua £40-45 miliwn, a bod y costau rhedeg blynnyddol oddeutu £4.2 miliwn. Mae'n bosibl y bydd y gwensi a ddysgir drwy'r gwaith cyfredol gan CThEM i bennu'r holl drethdalwyr Albanaidd ar ôl pasio Ddeddf yr Alban 2012 yn helpu i leihau'r costau gweithredu yng Nghymru. Nododd y Comisiwn ei bod yn debygol, er bod poblogaeth Cymru'n llai nag un yr Alban, y bydd y ffaith bod mwy o weithgarwch economaidd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nag ar y ffin rhwng yr Alban a Lloegr yn arwain at fwy o ymholiadau ar gyfartaledd gan drethdalwyr Cymreig ac felly ei bod yn bosibl y bydd mwy o ran i'w chwarae gan CThEM. Mae'n bosibl hefyd y bydd costau ychwanegol ar gyfer cydymffurfio wrth ddelio â mathau penodol o incymau a gostyngiadau yn y dreth fel Cymorth Rhodd a gostyngiadau yn y dreth ar gyfer cynlluniau pensiwn.

Bydd costau gweinyddu sy'n deillio o newidiadau sydd eu hangen yn system treth incwm y DU i gyflawni a gweithredu'r gyfradd Gymreig, gan gynnwys unrhyw addasiadau posibl i systemau talu budd-daliadau, yn cael eu hysgwyddo gan y weinyddiaeth ddatganoledig. Mae hyn yn gyson â *Statement of Funding Policy* Llywodraeth y DU.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Comisiwn yn credu y byddai datganoli'r pŵer i osod cyfraddau ar gyfer treth mor fawr (derbyniadau o dreth incwm yng Nghymru yw tua 30% o gyfanswm y refeniw treth) yn rhoi llif refeniw sylweddol i Lywodraeth Cymru i ganiatáu iddi fenthyca symiau i gyflawni ei blaenoriaethau polisi ac i etholwyr Cymru ei dal yn atebol am hynny.

Datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a Threth Tirlenwi

Disgrifiad o'r mesurau

Argymhellodd y Comisiwn fod treth dir y dreth stamp (TDDS) a threth tirlenwi yn cael eu datganoli i Gymru, a bod gostyngiad cyfatebol yn cael ei wneud yn y grant bloc. Mae'r Mesur Cymru drafft yn darparu ar gyfer hyn drwy ganiatáu i'r Cynulliad godi ei drethi ei hun mewn cysylltiad â thrafodion tir ac mewn cysylltiad â gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae'r Mesur drafft hefyd yn gweithredu argymhelliaid y Comisiwn i ddatganoli ardrethi busnes yn llwyr i Gymru. Byddai effaith uniongyrchol wedyn ar gyllideb Llywodraeth Cymru o refeniw o ardrethi busnes yng Nghymru, gan adlewyrchu perfformiad economi Cymru, yn hytrach na'i bod yn cael ei phennu gan wariant sydd wedi'i ariannu gan ardrethi busnes yn Lloegr drwy fformiwla Barnett.

Opsiynau polisi

Mewn arolwg barn a gomisiynwyd gan y Comisiwn, cafwyd bod 67% o ymatebwyr yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael hawl i amrywio lefel TDDS. Yn dilyn argymhelliaid y Comisiwn i ddatganoli TDDS, cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad pellach rhwng Gorffennaf a Medi 2013 ar yr effeithiau posibl o hynny ar y diwydiant adeiladu a'r farchnad dai ar hyd y ffin hir a phoblog rhwng Cymru a Lloegr. Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rheini a oedd y blaid y cynigion a'r rheini a oedd yn eu herbyn.

Nododd y Comisiwn yn ei adroddiad ar Ran I fod y dystiolaeth a gafwyd yn ategu'r ddadl o blaid datganoli treth tirlenwi i'r Cynulliad gan y byddai'n rhoi mecanwaith defnyddiol iddo mewn maes sydd eisoes wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad, sef rheoli gwastraff.

Wrth ystyried sut i wneud y sefydliadau datganoledig yng Nghymru'n fwy atebol, rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth hefyd i ddatganoli nifer o drethi eraill. Yn ogystal â datganoli TDDS, treth tirlenwi ac ardrethi busnes, roedd y Comisiwn hefyd yn awgrymu datganoli toll teithwyr awyr (TTA), ar gyfer teithiau hir yn gyntaf, a datganoli'r ardoll agregau, er iddo nodi bod trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch problemau posibl o ran cymorth gwladwriaethol mewn cysylltiad â'r

ardoll yng Ngogledd Iwerddon. Cytunodd Llywodraeth y DU i ddal y mater hwn dan sylw, ond nid oedd yn teimlo bod dadl berswadiol wedi'i chyflwyno o blaidd datganoli TTA yng Nghymru.

Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth hefyd i ddatganoli treth ar alcohol a thollau cartref, treth car, treth ar enillion cyfalaif, treth ar bremiymau yswiriant, toll stamp ar gyfranddaliadau, treth etifeddiant, trethi ar fetio a hapchwareae a'r ardoll newid yn yr hinsawdd, a phenderfynodd na ddylid datganoli'r trethi hyn.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â datganoli TDDS, treth tirlenwi ac ardrethi busnes yng Nghymru

Nid yw'r Asesiad Effaith hwn yn gallu pennu'r union gostau o ddatganoli TDDS, treth tirlenwi ac ardrethi busnes gan y bydd y cyfraddau treth, ac felly'r derbyniadau ohonynt, yn cael eu penderfynu gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Bydd costau'r newidiadau sydd eu hangen yn systemau TG a phrosesau busnes CThEM i ddatganoli TDDS a'r dreth tirlenwi yn cael eu hysgwyddo gan y weinyddiaeth ddatganoledig. Mae hyn yn gyson â *Statement of Funding Policy* Llywodraeth y DU.

Treth dir y dreth stamp

Y derbyniadau o TDDS ar drafodion tir yng Nghymru oedd £139 miliwn yn 2012-13. Yn yr un modd â mannau eraill, bydd derbyniadau'n amrywio yn ôl gweithgarwch a phrisiau yn y farchnad eiddo: roeddent ar eu huchaf yn 2006-07 ar £235 miliwn. Er y byddai treth ddatganoledig ar drafodion tir yng Nghymru yn caniatáu i Lywodraeth Cymru godi neu ostwng y cyfraddau treth, mae ymchwil a ddyfynnwyd gan y Comisiwn yn ei adroddiad ar Ran I yn dangos mai dylanwad ffyniol yn unig a gaiff costau trafodion fel TDDS ar benderfyniadau gan unigolion yngylch lleoliad ac na fyddent yn debygol o fod yn ffactor tyngedfennol wrth benderfynu ble i symud.

Mae'r ffurflenni TDDS presennol eisoes yn dangos (drwy god dynodi) ym mha ardal awdurdod lleol yr oedd y trafodiad tir wedi digwydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn galluogi CThEM ac unrhyw weinyddiaeth sy'n codi'r dreth ddatganoledig yn y dyfodol i wahaniaethu rhwng trafodion yng Nghymru a Lloegr. Yn gyffredinol, nid oes lle i gredu y bydd y baich am sicrhau cydymffurfiaeth yng Nghymru neu mewn rhannau eraill o'r DU yn fwy o ganlyniad i ddatganoli TDDS yng Nghymru.

Er hynny, nid oes systemau ar wahâr ar gyfer cofrestru tir yng Nghymru a Lloegr ac mae nifer o deitlau cofrestredig ac anghofrestredig i dir yn pontio'r ffin. Ar ôl datganoli TDDS, byddai angen gwahanu'r teitlau hyn yn elfennau Cymreig a Seisnig at ddibenion treth. Gan nad oes ffordd o weinyddu hyn yn ganolog, mae'n debygol y byddai'r baich hwn yn cael ei ysgwyddo gan drawsgladwyr a fyddai'n debygol, yn eu tro, o'i drosglwyddo i'w cleientiaid drwy godi ffioedd uwch.

Treth Tirlenwi

Ar hyn o bryd mae 203 o weithredwyr tirlenwi ar gofrestr treth tirlenwi CThEM ar gyfer y DU. O'r 723 o safleoedd tirlenwi sy'n cael eu rhedeg gan y gweithredwyr hyn, mae 29 (4%) yng Nghymru. Yn ôl amcangyfrif y Comisiwn, y refeniw o dreth tirlenwi yng Nghymru yn 2010-11 oedd tua £50 miliwn, neu ychydig llai na 6% o gyfanswm y DU. Yn fwy diweddar, mae CThEM wedi cyhoeddi ffigurau ar gyfer y cyfnod rhwng 1999-00 a 2012-13, sy'n dangos eto fod y refeniw o dreth tirlenwi yng Nghymru oddeutu £50 miliwn, neu 4.5% o gyfanswm y DU, yn 2012-13.

Nid yw'r ffurflen bresennol ar gyfer treth tirlenwi a ddarperir i weithredwyr cofrestredig gan CThEM yn gofyn iddynt nodi lleoliad daearyddol eu gweithgarwch trethadwy. Felly mae'n debygol y bydd datganoli treth tirlenwi yng Nghymru yn galw am gael ffurflen benodol i Gymru i ddatgan ffigurau ar gyfer treth tirlenwi. Er ei bod yn bosibl y bydd gweithredwyr tirlenwi sy'n gweithio ar draws safleoedd yng Nghymru a gweddill y DU yn wynebu baich ychwanegol drwy orfol rhoi datganiadau ar wahâr ar gyfer treth tirlenwi i bob gweinyddiaeth, yn gyffredinol ni fydd fawr o gynydd yn y baich o ran cydymffurfio. Unwaith eto, bydd hyn yn dibynnu ar benderfyniadau gan y Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Nododd y Comisiwn na fyddai datganoli trethi sy'n codi symiau llai yn cyfrannu llawn gymaint at gynyddu atebolwydd ariannol y sefydliadau datganoledig yng Nghymru ag y byddai datganoli treth incwm, ond y byddent yn helpu i rymuso Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni ei hamcanion polisi ac y byddai hyn yn ei dro yn ei gwneud yn fwy atebol i'r cyhoedd yng Nghymru.

3. BENTHYCA

Benthycia cyfredol

Disgrifiad o'r mesurau

Argymhellodd y Comisiwn fod Llywodraeth Cymru yn cael pwerau newydd i reoli'r cyfnewidioldeb cynyddol yn ei chyllideb o ganlyniad i ddatganoli TDDS a threth tirlenwi. Mae'r Mesur drafft yn darparu pwerau benthycia tymor byr a chronfa arian parod i Lywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau na fydd benthycia gormodol gan Lywodraeth Cymru yn effeithio ar ddyled genedlaethol y DU, mae'r Mesur Cymru drafft yn darparu hefyd y bydd y terfyn presennol ar fenthyca o £500 miliwn sydd wedi'i bennu yn adran 122 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys hefyd i fenthyca o'r math hwn. Bydd y gronfa arian parod yn galluogi Llywodraeth Cymru i gronni arian wrth gefn pan geir refeniu uchel o drethi datganoledig, a'i ddefnyddio pan fydd y refeniu o drethi datganoledig yn is na'r hyn a ragwelwyd.

Opsiynau a ystyriwyd

Edrychodd y Comisiwn ar dystiolaeth o wledydd tramor (a thystiolaeth ychwanegol a gafodd) a oedd o blaid cynnwys benthycia cyfredol mewn fframwaith sy'n cyfyngu maint y benthycia. Felly penderfynodd y Comisiwn y byddai'n briodol gosod terfyn, ac argymhell ei osod ar y dechrau ar yr un lefel â'r trefniadau presennol.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â'r system newydd

Roedd y Comisiwn yn cydnabod y byddai ei argymhellion ar ddatganoli trethi penodol yn creu cyfnewidioldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Felly pwrrpas ei argymhellion ar gyfer pwerau benthycia tymor byr a chronfa arian wrth gefn yw galluogi Llywodraeth Cymru i reoli'r cyfnewidioldeb hwn yn hytrach na rhoi'r gallu i fenthyca i ariannu gwariant cyfredol ychwanegol.

Benthycia cyfalaf

Disgrifiad o'r mesurau

Yn ei datganiad ar y cyd â Llywodraeth Cymru yn Hydref 2012, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod o blaid yr egwyddor o ddarparu pwerau benthycia i Lywodraeth Cymru i'w helpu i ariannu prosiectau seilwaith cyfalaf, ar yr amod bod llif refeniu annibynnol ar gael i gynnal hyn. Mae'r Mesur drafft yn gweithredu argymhellion y Comisiwn drwy ganiatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca at ddibenion cyfalaf. Mae'r Mesur drafft yn cyflwyno terfyn o [XYZ] ar allu Gweinidogion Cymru i fenthyca symiau i ariannu seilwaith cyfalaf. Mae'r Mesur drafft yn darparu y gall Llywodraeth y DU godi hyn ar ôl cael pleidlais "o blaid" gan fwyaf mewn refferendwm a gynhelir yn y dyfodol ar ddatganoli treth incwm.

Opsiynau a ystyriwyd

Yn ei adroddiad ar Ran 1, nododd y Comisiwn fod cynifer â 80% o'r rheini a holwyd ar gyfer arolwg barn yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael pŵer i fenthyca, ac mae'n cydnabod bod y "dystiolaeth o wledydd tramor yn awgrymu ei bod yn bosibl mai benthycia yw'r ffordd fwyaf darbodus a theg o ariannu gwariant cyfalaf gan lywodraethau is-genedlaethol ar y sail bod benthycia'n gallu gwella'r dyrannu ar adnoddau dros amser". Mae hefyd yn awgrymu mai gosod rhyw fath o derfyn gan Lywodraeth genedlaethol ar fenthyca gan lywodraeth is-genedlaethol yw'r dull mwyaf cyffredin o sicrhau nad yw benthycia o'r fath yn peryglu amcanion cyllidol y Llywodraeth genedlaethol.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â'r system newydd

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl pennu'r union gostau ac effeithiau o gynnydd mewn benthycia cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Er hynny, nododd y Comisiwn yn ei adroddiad ar Ran 1 y byddai nifer o fanteision heb werth ariannol yn codi o ddatganoli pwerau benthycia, gan gynnwys grymuso Llywodraeth Cymru a'i gwneud yn fwy atebol drwy roi mwy o hyblygrwydd iddi ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau seilwaith o werth uchel nag sydd ganddi ar hyn o bryd. Byddai hyn yn ei dro yn gallu hybu twf ac effeithlonrwydd.

4. CYMHORTHDAL Y CYFRIF REFENIW TAI (HRAS)

Disgrifiad o'r mesurau

Diddymwyd y system HRAS o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, a rhoddwyd rheolaeth i bob awdurdod lleol yn Lloegr dros ei fusnes tai yn gyfnewid am daliad untro i lywodraeth ganolog i adlewyrchu gwerth presennol net ei fusnes tai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y byddai newid tebyg yng Nghymru'n ddymunol. Gan y bydd llifau incwm newydd ar gael i bob awdurdod yn y dyfodol, gallai hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn benthyca. Er mwyn sicrhau na cheir benthyca gormodol yng Nghymru, a chynnydd yn y ddyled genedlaethol o ganlyniad i hynny, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i osod terfynau ar fenthyca gan awdurdodau lleol. Gan nad oes cymhwysedd deddfwriaethol gan y Cynulliad i osod terfyn cyffredinol ar fenthyca gan awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'r Mesur drafft yn darparu ar gyfer gosod terfyn o'r fath, ac yn rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru i osod terfyn ar awdurdodau lleol penodol yng Nghymru.

Ar wahân i'r pŵer i gyflwyno'r terfyn cyffredinol ar fenthyca sydd wedi'i ddisgrifio uchod, bydd Gweinidogion Cymru yn cael pwaerau sy'n cyfateb i'r rheini a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrannau 171-173 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Opsiynau a ystyriwyd

Ym mis Gorffennaf 2009 cyhoeddodd y Llywodraeth ei phapur ymgynghori *Reform of Council Housing Finance*, lle y disgrifiodd y Llywodraeth yr opsiwn y mae'n ei ffafrio, sef diddymu cymhorthdal y cyfrif refeniw tai yn Lloegr a rhoi system hunan-gyllido ddatganoledig yn ei le. Yr opsiwn arall oedd cadw'r system bresennol a'i gwella. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ffafrio cyflwyno system gyfrifoldeb ddatganoledig yn lle HRAS. Ar ôl hynny, ym Mawrth 2010, cyhoeddwyd y papur ymgynghori *Council Housing: A Real Future*, a oedd yn rhoi eglurhad manylach o'r cynigion ar gyfer hunan-gyllido. Roedd y crynodeb o ymatebion i'r papur hwn yn dangos bod mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno ag egwyddor hunan-gyllido.

Cyn cyflwyno'r system bresennol yn Lloegr, o dan adran 173 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 roedd yn ofynnol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â chynrychiolwyr Llywodraeth leol a phob awdurdod lleol yn Lloegr. Ar ôl hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y penderfyniadau yngylch hunan-gyllido rhwng Tachwedd 2011 ac Ionawr 2012. Yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, nododd y Llywodraeth nad oedd y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol a ymatebodd wedi herio egwyddorion hunan-gyllido na'r fethodoleg gyffredinol ar gyfer cyfrifo setliadau a thaliadau prisio.

Costau a buddion sy'n gysylltiedig â'r system newydd

O dan y system HRAS bresennol yng Nghymru mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo maint yr incwm a gwariant a ddylai fod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru mewn cysylltiad â'i stoc dai. Os bydd yr amcangyfrif o wariant yng Nghymru'n uwch na'r ffigur hwn, bydd Llywodraeth y DU yn talu'r cymhorthdal i Lywodraeth Cymru am y diffyg. Fodd bynnag, os yw incwm yr awdurdodau lleol yng Nghymru'n fwy na gwariant, yna mae'r warged (yr amcangyfrifwyd ei fod tua £73 miliwn y flwyddyn) yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth y DU ar ffurf cymhorthdal negyddol. Yn y dyfodol, bydd awdurdodau lleol Cymru yn cadw unrhyw warged a geir, gan arbed tua £33 miliwn y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrif (ar ôl gwneud taliadau untro gan awdurdodau lleol i Lywodraeth y DU, drwy Lywodraeth Cymru). Drwy gadw'r arbedion hyn, bydd mwy o annibyniaeth gan awdurdodau lleol yng Nghymru gan y byddant yn gallu benthyca cyllid ychwanegol i wella eu stoc dai er budd pobl Cymru. Mae'n debygol y bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â mabwysiadu'r system newydd yng Nghymru er nad yw'n bosibl eu mesur yn union gan fod costau o'r fath yn dibynnu ar benderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.



information & publishing solutions

Published by TSO (The Stationery Office) and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0870 600 5522

Order through the Parliamentary Hotline Lo-Call: 0845 7 023474

Fax orders: 0870 600 5533

Email: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop

12 Bridge Street, Parliament Square

London SW1A 2JX

Telephone orders: 020 7219 3890/General enquiries: 020 7219 3890

Fax orders: 020 7219 3866

Email: shop@parliament.uk

Internet: <http://www.shop.parliament.uk>

TSO@Blackwell and other accredited agents

ISBN 978-0-10-187732-9

A standard linear barcode representing the ISBN number 978-0-10-187732-9.

9 780101 877329